Mae deall newidiadau mewn poblogaeth ein hadar mwyaf eang eu dosbarthiad a'r rhai a welwn amlaf yn rhoi cipolwg i ni ar iechyd y cefn gwlad a'r moroedd o'n cwmpas drwyddo draw. Wrth eu gosod gyda rhywogaethau eraill tebyg, mae'r cymunedau yma o fywyd gwyllt hefyd yn ein galluogi i ddeall iechyd a gwytnwch mathau cyffredinol o gynefin ac felly'n gallu rhoi syniad i ni o gyflwr ein hamgylchedd lleol.

Gellir defnyddio data'r Arolwg Adar sy'n Nythu (BBS) i ddarparu tueddiadau poblogaeth ar gyfer nifer o'n rhywogaethau o adar gwyllt cyn belled yn ôl â'r 1990au. Ledled y DU, mae'r BBS yn cynhyrchu tueddiadau blynyddol ar gyfer dros 100 o rywogaethau.

Diolch i waith 2,814 o wirfoddolwyr, a arolygodd y swm rhyfeddol o 3,941 o sgwariau 1-km BBS ledled y DU, y mwyaf eto, casglwyd gwybodaeth ar 117 o rywogaethau cyffredin ac eang eu dosbarthiad yn 2018.

Yng Nghymru, arolygwyd 337 o sgwariau BBS (mwy na dwbl y nifer a arolygwyd am y tro cyntaf yn 1994). Roedd dwy rywogaeth ychwanegol yn ateb y trothwy cofnodi tymor hir trwy gyfrwng y BBS yn 2017

– **gŵydd Canada** a'r **barcud** – sy'n dod â'r cyfanswm o dueddiadau poblogaeth tymor hir i 58.

Er mwyn ateb y trothwy cofnodi, rhaid i rywogaeth fod wedi ei chofnodi mewn 30 sgŵar neu fwy ar gyfartaledd ers dechrau'r arolwg. Ychydig o ddegawdau'n ôl prin fod y **barcud** yn dal ei dir mewn ychydig iawn o gymoedd canolbarth Cymru, ond rhwng 1996 a 2016 cynyddodd y boblogaeth o 368%. Erbyn hyn maen nhw'n eang eu dosbarthiad ac yn olygfa gyfarwydd mewn llawer man; stori o wir lwyddiant cadwraeth.


Bydd gan ganlyniadau arolygon BBS ran bwysig mewn cyflenwi gwybodaeth ar gyfer rheolaeth tir priodol a phenderfyniadau cadwraeth.

Rhywogaeth	% tueddiad tymor hir yn y DU (1970-2015)	% tueddiad BBS y DU (1995-2016)	% tueddiad BBS Cymru (1995-2016)	BoCCW3 (2016)
Gŵydd Canada	-	82	432	
Hwyaden wyllt	100	17	-8	
Ffesant	70	32	52	
Crëyr glas	-5	-11	3	
Barcud	-	1,457	368	
Bwncath	465	93	1	
Gylfinir	-65	-48	-63	
Colomen wyllt	-	-24	48	
Colomen lwyd	113	22	61	
Ysguthan	123	33	20	
Turtur dorchog	311	2	19	
Cog	-56	-43	-25	
Gwennol ddu	-	-53	-61	
Cnocell werdd	100	28	-15	
Cnocell fraith fwyaf	349	126	180	
Pioden	97	-2	-25	
Ysgrech y coed	8	14	31	

Rhywogaeth	% tueddiad tymor hir yn y DU (1970-2015)	% tueddiad BBS y DU (1995-2016)	% tueddiad BBS Cymru (1995-2016)	BoCCW3 (2016)
Jac-y-do	149	55	15	
Ydfran	-	-21	-52	
Brân dyddyn	98	18	8	
Cigfran	-	36	34	
Dryw eurben	-15	20	-32	
Titw tomos las	21	-3	0	
Titw mawr	81	30	22	
Titw penddu	16	-3	-27	
Ehedydd	-59	-20	1	
Gwennol	8	12	24	
Gwennol y bondo	-48	-12	-5	
Titw cynffon-hir	98	21	33	
Siff-siaff	104	125	74	
Telor yr helyg	-44	-9	-9	
Telor penddu	289	143	139	
Telor yr ardd	-10	-25	-26	
Llwydfron	6	27	-25	
Delor y cnau	252	87	38	
Dringwr bach	-10	7	35	
Dryw	68	40	36	
Drudwen	-81	-51	-72	
Mwyalchen	-16	24	40	
Bronfraith	-50	32	35	
Brych y coed	-55	-24	-5	
Robin goch	55	31	19	
Tingoch	72	31	22	
Clochdar y cerrig	-	92	191	
Tinwen y garn	-	-26	-32	
Llwyd y gwrych	-29	23	37	
Aderyn y to	-66	-6	75	
Siglen fraith	39	1	7	
Corhedydd y coed	-69	3	-18	
Corhedydd y waun	-34	-7	2	
Ji-binc	21	-8	-12	
Coch y berllan	-39	16	6	
Llinos werdd	-46	-54	-62	
Llinos	-55	-18	-12	
Nico	159	136	76	
Pila gwyrdd	-	44	83	
Bras melyn	-56	-18	-58	
Bras y cyrs	-31	39	49	

Dengys y tabl yr amcangyfrifon wedi eu llyfnu o newid ar gyfer adar eang eu dosbarthiad sy'n nythu yng Nghymru rhwng 1995 a 2016, gan fesur tueddiadau cyffredol mewn amlder adar sy'n nythu. Dangosir hefyd amcangyfrif newid ar lefel y DU rhwng 1970 a 2015 (45-mllynedd), a rhwng 1995 a 2016 (21-mllynedd) er mwyn caniatáu cymhariaeth ar raddfa ehangach. Defnyddir tueddiadau 64 rhywogaeth gyffredin ac eang eu dosbarthiad sy'n nythu i ffurfio dangosydd o sefyllfa adar gwyllt Cymru.

Adar cyffredin ac eang eu dosbarthiad sy'n nythu



Mae'r dangosydd adar gwyllt diweddaraf ar gyfer Cymru'n berthnasol i'r cyfnod 1994 i 2016 ac mae'n dangos patrwm tebyg o brinhad ledled pob grŵp yn y blynyddoedd diweddar. Mae'r dangosydd yn uwchleuo'r dirywiad cyflym mewn adar o gynefinoedd

syn cael eu ffermio ar iseldir ac ucheldir Cymru. Mae'r rhywogaethau sy'n dirywio fwyaf (**gylfir, llinos werdd, drudwen, bras melyn, cudyll coch**, ac **ydfran**) yn defnyddio ystod o gynefinoedd mewn ffyrdd gwahanol sy'n awgrymu bod y rhesymau

dros eu dirywiad unigol yn debygol o fod yn wahanol iawn. Cafwyd dirywiad hefyd mewn rhywogaethau eraill, yn enwedig ymfudwyr o Affrica fel y **wennol ddu** a'r **gog** (ond nid yr **wennol**).

Ceir mwy o fanylion am y BBS, yn cynnwys adroddiadau diweddaraf *Arolygon Adar sy'n Nythu*, ar bto.org.uk/bbs

Ceir mwy o fanylion am sefyllfa adar cyffredin ac eang eu dosbarthiad sy'n nythu yn y DU, yn enwedig dadansoddiad tueddiadau tymor hir, yn adroddiad *State of the UK's Birds*, sydd ar gael ar rspb.org.uk/sukb



Ben Hall (rspb-images.com)

Mae hanes y **barcud** yn stori o wir lwyddiant.

Adar o bryder cadwraethol yng Nghymru

Yn hydref 2016, cyhoeddwyd canlyniadau adolygiad pwysig o statws cadwraeth adar yng Nghymru – *Adar o bryder cadwraethol yng Nghymru 3 (BoCCW3)*.

Aseswyd y rhywogaethau o adar sy'n nythu neu'n gaeafu yng Nghymru yn erbyn casgliad o feini prawf gwrthrychol ac yna fe'u gosodwyd ar un ai'r rhestr Goch, Ambr neu Werdd, i nodi'r lefel o flaenoriaeth cadwraethol ar gyfer y poblogaethau hynny.

Defnyddiodd yr adolygiad yr wybodaeth ddiweddaraf ar statws adar yng Nghymru, y DU a manau eraill o fewn eu hardaloedd dosbarthiad, gan

defnyddio data a gasglwyd drwy gyfrwng cynlluniau monitro adar sefydledig a mentrau gwyddoniaeth dinasyddion.

Gan ganolbwyntio ar lefel Gymreig, asesodd y meini prawf meintiol sawl ffactor ar gyfer pob rhywogaeth:

- tueddiadau hanesyddol a mwy diweddar mewn poblogaeth a dosbarthiad
- maint y boblogaeth bresennol
- dosbarthiad yn lleol a phwysigrwydd rhyngwladol
- statws cadwraeth yn y DU, yn Ewrop ac yn fyd-eang.

Ystyriwyd cyfanswm o 213 o rywogaethau yn ystod y dadansoddiad, a gyhoeddir yn *Birds in Wales* Cyfrol 13 Rhif 1. O'r 213 rhywogaeth hon, mae 55 ar y rhestr Goch, 89 ar y rhestr Ambr a 69 ar y rhestr Werdd.

Ymgwymerwyd â'r ymchwil ar gyfer *BoCCW3* gan yr RSPB, mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac Ymddiriedolaeth Adara Prydain (BTO). Cefnogwyd yr adolygiad gan Gymdeithas Adaryddol Cymru (WOS), Panel Adar Prin sy'n Nythu (RBBP), yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Ymddiriedolaeth Adar Dŵr a Gwlyptir (WWT).



Andy Hay (rspb-images.com)

Mae Cymru'n cynnal dros 40% o'r **telorion y coed** sy'n nythu yn y DU.

Mae adar y bwn wedi nythu yng Nghymru ar ôl absenoldeb o 32 mlynedd.



Ben Andrew (rspb-images.com)

Adar anfynych a phrin sy'n nythu yng Nghymru

Nid yw pob aderyn sy'n nythu yn ddigon niferus i gael ei gofnodi gan gynlluniau monitro cenedlaethol, megis yr Arolwg Adar sy'n Nythu (BBS). Er bod y BBS yn ein galluogi i fonitro tueddiadau dros 50 o'n hadar mwyaf cyffredin ac eang eu dosbarthiad sy'n nythu yng Nghymru, dyma lai na thraean o'r cyfanswm o rywogaethau preswyl, ymfudol a'r rhai sy'n nythu'n ysbeidiol.

Ni gofnodir y rhywogaethau prinnaf sy'n nythu yn ddigon aml gan arolygon BBS i'n galluogi i ddyfalu tueddiadau poblogaeth yng Nghymru. Mae hyn yn digwydd oherwydd dull yr arolygon o weithredu wrth beidio targedu rhywogaethau ynghyd â'r nifer o sgwariau a arolygir bob blwyddyn. Mae angen dulliau gwahanol o roi arolygon ar waith i sicrhau ein bod yn deall statws y boblogaeth, tueddiadau ac effeithiau ar y rhywogaethau hyn, llawer ohonyn nhw o flaenoriaethau cadwraeth uchel. Daw llawer o'r data ar y rhywogaethau yma, a gydlynir gan y Panel Adar Prin sy'n Nythu (RBBP), o gofnodion a gasglwyd gan adarwyr gwirfoddol, yn aml o'r rhwydwaith o gofnodwyr sirol yng Nghymru ac o gofnodion a anfonwyd i mewn fel rhan

o wybodaeth trwyddedau blynyddol CNC.

Mae math a graddfa'r data monitro a goladir gan yr RBBP yn amrywio'n sylweddol rhwng rhywogaethau; i rai mae'n gyfan, neu mwy neu lai felly, ond o ran rhywogaethau eraill dim ond ar gyfer cyfran fechan o'r boblogaeth mae data ar gael. Fe all hefyd amrywio o flwyddyn i flwyddyn, neu cyfyngir ar y data mewn ffyrdd eraill. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer rhai o'r rhywogaethau anfynych a gofnodir gan yr RBBP, a'r rhai sydd â dosbarthiad mewn ardaloedd ymhell oddi wrth ardaloedd sydd â phoblogaeth uchel neu mewn mannau lle nad yw'n hawdd cael mynediad atyn nhw.

Ar gyfer rhywogaethau o'r fath, arolygon penodol sy'n cael eu hailadrodd ar gyfnodau rheolaidd sy'n darparu'r data mwyaf cyflawn angenrheidiol i lunio tueddiadau cynhwysfawr a darparu gwybodaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau ar gyfer cadwraeth. Yn aml, arolygon rhywogaethau unigol yw'r rhain, megis y rhai a roir ar waith o dan yr Asiantaeth Gadwraeth Statudol ac Arolwg Blynyddol Adar sy'n Nythu'r RSPB (SCARABBS), neu

arolygon a gomisiynwyd ar gyfer pwrpasau penodol.

Mae poblogaethau nifer fechan o rywogaethau anfynych neu brin wedi cynyddu mewn ardaloedd eraill yn y DU yn y blynyddoedd diwethaf, ac maen nhw hefyd yn dechrau ail-sefydlu eu hunain yng Nghymru. Mae'n nodedig bod y cytrefwyr diweddar yma'n gysylltiedig â gwlyptiroedd a'u bod wedi dewis ardaloedd gwarchoddedig i ddychwelyd iddyn nhw.

- Nythodd **garanod** yng Nghymru unwaith eto am y tro cyntaf mewn pedair canrif, gyda phâr yn nythu ar Wastadeddau Gwent yn 2016 yn llwyddo i fagu un cyw.
- Ar ôl 32 mlynedd o fod yn absennol fel rhywogaeth sy'n nythu, mae **adar y bwn** wedi nythu unwaith eto yng Nghymru; nythodd pâr ar Ynys Môn yn 2016. Y cofnod olaf o **adar y bwn** yn nythu yng Nghymru oedd ar Ynys Môn yn 1984, er bod nifer fechan o adar wedi bod yn gaeafu, gydag ambell i unigolyn yn cael ei gofnodi ar ddiwedd yr haf neu ddechrau'r hydref.



Royston Gale (Shutterstock)

Nythodd garanod ar Wastadeddau Gwent yn 2016, gan ddychwelyd i Gymru wedi absenoldeb o 400 mlynedd.

Adar anfynych a phrin sy'n nythu yng Nghymru


Dyma ddiweddariad o dueddiadau ychydig o'r adar anfynych a phrin sy'n nythu yng Nghymru lle mae gennym ddigon o ddata i amcanu'r newid yn ddibynadwy.

Rhywogaeth ¹	Amcangyfrif poblogaeth ²	Tueddiad (% newid)	Ffynhonnell a chyfnod y tueddiad ³	BoCCW3
Hwyaden lwyd	33	774	RBBP	
Grugiar ddu	359 ⁽²⁰¹⁶⁾	51	Arolygon blynyddol (1992–2016)	
Aderyn y bwn	2		RBBP	
Crëyr bach	93	Cynnydd	RBBP	
Boda'r mêl	3-4	Gostwng	RBBP	
Boda'r gwerni	1		RBBP	
Boda tinwyn	35 ⁽²⁰¹⁶⁾	30	SCARABBS (1988/89–2010)	
Gwalch Marth	111	Cynnydd	RBBP	
Gwalch y pysgod	4	Cynnydd	RBBP	
Cudyll bach	23	Gostwng	RBBP	
Hebog yr ehedydd	39	416	RBBP	
Hebog tramor	249 ⁽²⁰¹⁴⁾	-11	SCARABBS (1991–2014)	
Cambig	33	Cynnydd	RBBP	
Cwtiad torchog bach	141	2,250	Arolygon (1994–2007)	
Troellwr mawr	244 ⁽²⁰⁰⁴⁾	328	SCARABBS (1982–2004)	
Brân goesgoch	215 ⁴ (2014)	42	SCARABBS (1982–2014)	
Dryw penfflamgoch	16	Cynnydd	RBBP	
Titw barfog	5	Cynnydd	RBBP	
Telor Cetti	161	1,693	RBBP	
Telor Dartford	30	Cynnydd	RBBP	
Mwyalchen y mynydd	547 ⁵ (2012)	Gostwng	SCARABBS (1999–2012)	

- 1 Cyfyngir y tueddiadau ar gyfer adar anfynych a phrin sy'n nythu i'r rhywogaethau hynny lle gallwn gynhyrchu amcangyfrifon dibynadwy ar gyfer Cymru. Gweler adroddiad *Sefyllfa Adar yn y DU 2017* am dueddiadau adar anfynych a phrin sy'n nythu ledled y DU.
- 2 Seilir amcangyfrifon poblogaeth ar ganlyniadau'r arolygon mwyaf diweddar (gyda blwyddyn y ffynhonnell mewn parentheses), neu gyfansymiau cymedr arolygon RBBP neu arolygon blynyddol o'r pum mlynedd 2011 i 2015. Am dueddiadau sy'n seiliedig ar arolygon, yna parau, tiriogaethau neu unedau yw'r ffigurau sy'n debygol o fod gyfwerth â pharau sy'n nythu (er enghraifft, y nifer o geiliogod sy'n arddangos eu hunain ar gyfer **grugieir duon**). Fodd bynnag, ar gyfer RBBP, seilir ffigurau ar ymgeisiadau nythu posibl (er enghraifft, adar gwrywaidd tiriogaethol unigol) ac nid ydyn nhw o anghenraid yn cyfateb i ymgeisiadau nythu llwyddiannus.
- 3 Nodir gyfnodau'r tueddiadau ar gyfer y rhywogaethau hynny sy'n cael eu cofnodi gan arolygon cyfnodol, megis o dan SCARABBS. Cymedr pum-mlynedd yw tueddiadau RBBP a gyfrifir am gyfnod o 25-mlynedd rhwng 1986-1990 a 2011-2015. Nid oes canran ffigurau wedi eu cyfrifo ar gyfer rhywogaethau sydd wedi cytrefu Cymru ers dechrau'r cyfnod 25-mlynedd neu lle nad yw data sy'n benodol i Gymru ar gael heblaw am gyfnod byrrach wedi eu dyfalu, felly rydym wedi nodi'n unig bod cynnydd wedi digwydd.
- 4 Yr amcangyfrif dros dro ar gyfer poblogaeth y **frân goesgoch** yng Nghymru, fel y cofnodwyd yn *Sefyllfa Adar yng Nghymru 2015* (Hayhow *et al* 2015).
- 5 Cyfyngedig oedd arolwg SCARABBS o'r **mwyalchen y mynydd** yng Nghymru yn 1999 oherwydd diffyg cofnodion nythu hanesyddol i ddiffinio ardal yr arolwg ac oherwydd diffyg adnoddau i arolygu nifer digonol o detradau. Felly mae cymhariaeth uniongyrchol yn awgrymu dirywiad o 11% rhwng y ddau gyfnod arolygu.

Mae poblogaeth y frân goesgoch wedi cynyddu yng Nghymru ers 1982.

Andy Hay (rspb-images.com)



Adar môr sy'n nythu yng Nghymru

Mae tir mawr ac ynsoedd Cymru'n cynnal nythfeydd pwysig o adar môr sy'n dibynnu ar iechyd ein harfordir a'n moroedd. Mae rhai o'r nythfeydd yma'n cael eu monitro bob blwyddyn gan y Rhaglen Monitro Adar Môr (SMP), a gydlynir gan

y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC), ac ymgymerir â'r arolygon gan gyrff sy'n bartneriaid a gwirfoddolwyr ymroddedig.

Mae'r SMP yn coladu data ar amllder a chynhyrchedd adar môr sy'n nythu ac mae hyn

yn ein galluogi i asesu cyflwr ein poblogaethau o adar môr sy'n nythu, a'n helpu i ddod i gasgliadau am y newidiadau yn yr amgylchedd morol ehangach a'u goblygiadau i fioamrywiaeth y môr.

Tueddiadau adar môr sy'n nythu yng Nghymru

Hyd yn ddiweddar, mae'r rhan fwyaf o'r safleoedd o amgylch Cymru wedi cynnal poblogaethau sefydlog o adar môr sy'n nythu neu boblogaethau sy'n cynyddu, yn wahanol i dueddiadau yng ngogledd y DU yn ogystal â phoblogaethau rhai nythfeydd Ewropeaidd o adar môr. Dengys yr adroddiad diweddaraf ar dueddiadau poblogaethau adar môr sy'n defnyddio data'r SMP bod hyn yn dal yn wir yn gyffredinol, gyda rhywogaethau o garfilod (**gwylogod**, **llursod** a **phalod**) a môr-wenoliaid (**môr-wennol y Gogledd**, **y fôr-wennol fechan** a'r **fôr-wennol bigfain**) i gyd yn dangos cynnydd mewn amllder yng Nghymru.

Fodd bynnag, yn yr ychydig o flynyddoedd diwethaf gwelwyd dirywiad yn y nifer o **wylanod coesddu** sy'n nythu yng Nghymru a dengys data'r SMP bod y mynegai 35% yn is na man cychwyn 1986 ar hyn o bryd (1986–2015). Mae **môr-wenoliaid**

cyffredin a **môr-wenoliaid wridog** wedi gostwng o ran eu hamllder. Fodd bynnag, mae astudiaethau modrwyo fel pe baen nhw'n dangos bod y dirywiad yn y **fôr-wennol wridog** wedi digwydd oherwydd bod adar yn gadael eu nythfeydd yng Nghymru (ac yng Ngogledd Iwerddon) ac yn ymfudo i nythfeydd yng Ngwerniniaeth Iwerddon.

Mae data'r SMP hefyd yn nodi dirywiad y **fulfran werdd**, rhywogaeth sy'n bwydo ar ystod o bysgod bach y mae'n eu dal yn bennaf gyda'r glannau ar wely'r môr neu'n agos ato. Mae gwerth mynegai'r rhywogaeth hon wedi gostwng i'w bwynt isaf ers 1993 ac efallai mai'r rheswm am hyn yn rhannol yw effaith y 'chwalfa' yn ystod gaeaf 2012/2013 (mae 'chwalfa' yn digwydd pan mae nifer enfawr o adar yn marw o ganlyniad i ddigwyddiad megis gaeaf eithafol).

Saif huganfa enfawr, y drydedd fwyaf yn y DU ac Iwerddon, ar Ynys Gwales oddi ar arfordir Sir Benfro. Mae data'r SMP yn awgrymu bod rhywfaint o brinhad o 8% wedi digwydd yn y nifer o **huganod** ers 2009, ond mae'r mynegai'n parhau i fod 20% uwchben man cychwyn 1986.

Mae'r amrywiaeth ym mynegeion yr SMP ar gyfer adar môr gyda gwahanol dactegau chwilota am fwyd (bwydwyr ar yr wyneb, plymwyr bas, plymwyr dwfn a bwydwyr cyffredinol) yn amlygu'r angen am fonitro ychwanegol ar lefel y nythfa, yn ogystal â gwyliadwriaeth ar y môr. Oherwydd bod cysylltiad agos iawn rhwng adar môr ac ecosystemau morol mae eu statws yn uwchleuo pwysigrwydd gwella'r warchodaeth a sicrhau iechyd a gwytnwch y moroedd o amgylch Cymru.

Am fwy o wybodaeth gweler jncc.defra.gov.uk/page-1550

Cyfleoedd bwydo i adar môr... allan ar y môr

Mae ymarferion pysgota anghynaliadwy, llygrwyr a heintiau, ynghyd â chynnydd

yn nymheredd y môr, o ganlyniad i newid hinsawdd mae'n debyg, yn cael effaith ar

gadwynau bwyd morol ac felly ar adar môr.



Adar môr sy'n nythu yng Nghymru

Mae effeithiau'r amodau newidiol yma'n amrywio ledled ardaloedd morol y DU ac awgrymir mai'r rheswm dros amrywiaeth ranbarthol yn nemograffi adar môr yw gwahaniaethau lleol o ran cyfleoedd bwydo diogel a digonol.

Mae astudiaethau o ddeiet a llwyddiant nythu adar môr yn peri gryn her. Fodd bynnag, defnyddiodd astudiaeth ddiweddar arsylwadau safonedig o'r ysglyfaeth a gludwyd i'r cywion i gwblhau'r asesiad integredig cyntaf o ddeiet cywion **gwylogod** ar lefel y DU (Anderson *et al* 2014). Yn yr astudiaeth nodwyd gwahaniaethau yn y bwyd a gludwyd gan **wylogod** mewn nythfeydd deheuol/gorllewinol o'u cymharu â nythfeydd dwyreiniol/gogleddol.

Yn nyfroedd y DU, mae'r prif bysgod y mae adar môr yn eu bwyta'n ystod y tymor nythu'n perthyn i dri theulu: Ammodytidae (llymriaid), Clupeidae a Gadidae. Yng

ngogledd a dwyrain yr Alban, llymriaid yw'r prif rywogaeth ysglyfaeth fel arfer, ac yn y lleoliadau hyn roedd cynhyrchedd is yn digwydd yr un pryd â phrinder bwyd. Fodd bynnag, mae **gwylogod** mewn nythfeydd yng Nghymru yn llai dibynnol ar llymriaid ac yn bwydo hefyd ar rywogaethau Clupeidae (corbenwaig a phenwaig ifanc yn bennaf) a gadoidau. O ganlyniad, mae gan yr adar yma ffynhonnell arall o fwyd i'w cywion, nid yn unig yn y blynyddoedd hynny pan mae llymriaid yn brin. Dangosodd y dadansoddiad hwn bod amrywiaeth gofodol ac o ran amser yn neiet y cywion yn cyd-ddigwydd yn fras gyda phatrymau a ddisgwyllir o ganlyniad i gynnydd yn nhymeredd y môr ac effeithiau pysgota anghynaliadwy.

Yn 2017 rhoddwyd dadansoddiad gwahanol o dros 20 mlynedd o ddata ar waith ar ddeiet rhywogaethau o fôr-wenoliaid ar ynysoedd Ynys Môn (RSPB 2017). Mae'r data yma'n bennaf ar gyfer

môr-wennol y Gogledd ac maen nhw'n siartio'r math a'r nifer o eitemau o ysglyfaeth dros y tymhorau. Dengys canlyniadau cynnar newid yn y rhywogaethau ysglyfaeth, y nifer a'r maint dros gyfnod o amser, gydag amrywiaeth rhyng-dymhorol rhwng llymriaid, clupeidau neu rywogaethau eraill o rywogaethau ysglyfaeth (ystifflog, gadoidau a chor-gimychiaid). Efallai bod yr amrywiaethau hyn, a'r effaith potensial ar gynhyrchedd y nythfeydd, yn gysylltiedig â newidiadau yn nhymeredd y môr, sy'n effeithio ar nifer, maint a symudiadau rhywogaethau ysglyfaeth.

Er nad oes canlyniadau pendant wedi deillio eto o'r data yma, mae'r dadansoddiad wedi rhoi cyfeiriad i ni a chipolwg gwerthfawr ar yr hyn y mae angen i ni ei wneud i wella ein dealltwriaeth o'r problemau a all wynebu ein hadar môr yn wyneb newid hinsawdd, a lle mae angen i ni dargedu'r atebion posib.

gwyddonwyr breswylwyr gydweithio mae sicrhau hynny.

Cychwynnodd cyfrifiad y Cyfrif Adar Môr yn 2015 a bydd yn dod i ben yn 2019. Yn ôl dadansoddiad a roddwyd ar waith gan yr RSPB mae 30% o'r gwaith cyfrif wedi ei wneud hyd yma ledled y DU. Er bod canran uwch o'r gwaith wedi ei gwblhau yng Nghymru, mae cyfle yn dal i fodoli i chi helpu i lenwi'r bylchau.

Mae angen eich cymorth ar adar môr

Ymgymrwyd â'r cyfrifiad llawn diwethaf o'n hadar môr (Seabird 2000) rhwng 1998 a 2002, ac mae'n feincnod ar gyfer asesu iechyd nid yn unig ein poblogaethau o adar môr ond yr ecosystem morol ehangach hefyd. Saif llawer o'n hadar môr ar frig cadwynau bwyd morol, sy'n ein galluogi i benderfynu ar statws nifer o rywogaethau a chynefinoedd morol eraill o dueddiadau adar môr. Mae adar môr hefyd yn

un o'r mathau mwyaf amlwg a hygyrch o fywyd gwyllt y môr, ac felly'n hawdd i'w gwyllo.

Er bod yr SMP yn coladu data o nifer sylweddol o nythfeydd ledled Cymru a gweddill y DU, mae llawer nad ydyn nhw'n cael eu harolygu bob blwyddyn. Mae ymgymryd â chyfrifiad llawn o'n hadar môr yn orchwyl enfawr, a dim ond wrth i gyrff anllywodraethol (CA), cyrff llywodraethol a

Os hoffech wirfoddoli fel arolygydd neu gydlynnydd rhanbarthol, cewch fwy o wybodaeth ar jncc.defra.gov.uk/page-7413

Patrymau o newid yn adar Cymru

Mae gan Gymru dreftadaeth naturiol gyfoethog ac mae bywyd gwyllt yn ffurfio rhan bwysig o'n gorffennol, ein presennol a'n dyfodol. Credir bod dros 50,000 o rywogaethau yng Nghymru (Hayhow *et al* 2016) ac mae adar yn ffurfio rhan fechan ond hanfodol o'r cyfoeth biolegol hwn, gyda 213 rhywogaeth yn bresennol yn rheolaidd yng Nghymru (Johnstone a Bladwell 2016).

Roedd Atlas Adar 2007–11 (yr Atlas) yn cyfrif ym mhob un o'r 2,988 10-km sgwâr sy'n cynnwys tir ledled Prydain Fawr ac Iwerddon, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel. O'r rhain, roedd 264 yng Nghymru (Balmer *et al* 2013). Cynrychiolodd sgwariau Atlas Cymru 7% o'r cyfanswm o sgwariau yn y DU, felly mae rhywogaethau gyda mwy na 7% o faint eu dosbarthiad (neu amllder) yng Nghymru'n cael eu cynrychioli'n well yma nag y byddai rhywun yn ei ddisgwyl drwy hap.

Diolch i waith ymroddedig gwirfoddolwyr, a gyfrannodd filoedd o oriau o ymdrech gyda chefnogaeth sawl corff sy'n bartner, cynhyrchodd yr Atlas dros 19 miliwn o gofnodion ar gyfer 502 rhywogaeth ym Mhrydain ac Iwerddon. O'r rhywogaethau yma, cofnodwyd 194 yng Nghymru'n ystod y tymhorau nythu lle cynhaliwyd cyfrifon gan yr Atlas, a 270 dros y gaeafau.

Beth sy'n bwysig yng Nghymru?

O ran rhai rhywogaethau, mae Cymru'n cynnal cyfran uchel o boblogaeth gyfan y DU. Er enghraifft, mae Cymru'n cynnal dros 50% o boblogaethau nythu'r **frân goesgoch**, y **gwybedog brith** a'r **tingoch** yn y DU, yn ogystal

â dros 25% o boblogaethau nythu'r DU o **foda'r mêl**, **gwalch Marth**, **telor y coed**, y **barcud** a'r **gigfran**. Mae'r rhan fwyaf o'r rhywogaethau sydd ag amllder perthynol uchel yng Nghymru yn rhywogaethau cymharol anghyffredin ac yn

nodweddiadol o goedlannau llydanddail gorllewinol a chyrion coedlannau, yn cynnwys y **gwybedog brith**, **tingoch**, **telor y coed**, **delor y cnau** a **thelor yr ardd**.

Rhywogaeth	% amllder nythu yng Nghymru 2007–11
Brân goesgoch	76
Gwybedog brith	69
Tingoch	55
Boda'r mêl	47
Gwalch Marth	43
Telor y coed	43
Barcud	38
Cigfran	26
Delor y cnau	24
Telor yr ardd	22

Rhywogaeth	% amllder gaeafu yng Nghymru 2007–11
Môr-hwyaden ddu	55
Brân goesgoch	50
Gwalch Marth	46
Barcud	41
Pinc y mynydd	33
Cigydd mawr	27
Cigfran	25
Delor y cnau	23
Titw'r helyg	20
Gwylog	19

Dengys y tablau hyn y 10 rhywogaeth ar y brig yng Nghymru, yn seiliedig ar bwysigrwydd eu poblogaethau nythu a gaeafu. Trefnir y rhywogaethau gan amllder canran cymedrig, a gaiff ei ddyfalu o'r data nythu neu aeafu a gasglwyd o dedradau a arolygwyd mewn sgwariau 10-km yng Nghymru lle'r oedd y rhywogaeth yn bresennol rhwng 2007–11. Ni chynhwysir adar môr sy'n nythu mewn nythfeydd cytrefol yn y cyfansymiau nythu.



Mae Cymru'n arbennig o bwysig i **ditw'r helyg** preswyl yn y gaeaf.

Mae'r **frân goesgoch**, rhywogaeth yr arfordir a'r mynydd sy'n chwilota am fwyd ar laswelltir a rhostiroedd, ar frig y tabl o ran pwysigrwydd poblogaeth nythu Cymru ac mae hi hefyd yn ail o ran pwysigrwydd yn y gaeaf.

Yn ystod misoedd y gaeaf, mae Cymru'n bwysig ar gyfer nifer o rywogaethau sydd hefyd yn bwysig yn ystod y tymor nythu, yn cynnwys y **gwalch Marth**, y **barcud**, ac 20% o'r is-rywogaeth Brydeinig endemig o **ditw'r helyg**. Yn y moroedd o

amgylch ein harfordir, mae Cymru hefyd yn cynnal cyfrannau sylweddol o boblogaethau gaeafu'r DU o **fôr-hwyaidd du** a **gwylogod**, a gwelir y môr-hwyaidd yn heidio at ei gilydd yn rheolaidd ym Mae Caerfyrddin.

Patrymau o newid mewn dosbarthiad nythu

Ledled yr holl rywogaethau sy'n nythu yng Nghymru, mae oddeutu nifer cyfartal yn cynyddu, yn dirywio neu'n sefydlog dros ysbaid tymor byr yr Atlas (20 mlynedd).

Mae rhaniad cyfartal tebyg yn amlwg dros ysbaid tymor hir yr Atlas (40 mlynedd). Mae'r patrwm hwn yn cyferbynnu gyda'r sefyllfa yn y DU drwyddo draw, lle mae mwy o

rywogaethau'n cynyddu (45%) yn y tymor byr, a lle mae mwy o ddsbarthiad nythu'n cynyddu (38%) neu'n gostwng (37%) nag sy'n sefydlog (24%) dros y tymor hir.


Mesurau newid diweddar (1988–91 hyd 2007–11)

↑ 58 (37%)
→ 50 (32%)
↓ 49 (31%)

Mesurau newid tymor hir (1968–72 hyd 2007–11)

↑ 51 (33%)
→ 51 (33%)
↓ 55 (35%)

Patrymau o newid yn adar Cymru



Dangosydd Adar Tymor Hir Cymru'n seiliedig ar newidiadau mewn dosbarthiad ym mhob rhywogaeth o adar sy'n nythu rhwng Atlasau Adar 1968-71 a 2007-11.

Newidiadau yn rhywogaethau Cymru o bryder cadwraethol

Mae data'r Atlas hefyd yn ein galluogi i edrych yn fanwl ar y newidiadau mewn dosbarthiad rhywogaethau â blaenoriaeth ledled grwpiau cynefin dangosyddion Cymru, i ddatgelu patrymau o newid yn ein tirluniau (rhywogaethau â blaenoriaeth yw rhywogaethau Adran 7 a restrir o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016).

Mae'n nodedig, ymysg y 12 rhywogaeth â blaenoriaeth coedlan Adran 7, bod tueddiadau ar gyfer wyth rhywogaeth yng nghyfnod cyntaf yr Atlas yn negyddol, tra mai chwech oedd yn negyddol yng nghyfnod Atlas 1990-2010. Dirywiodd dwy o rywogaethau'r goedlan (**titw'r helyg** a **chnocell fraith leiaf**) o fwy na 25% mewn dosbarthiad dros y tymor hir (1970-2010) a phrinhaodd

pedair arall (y **gylfin braff**, **titw'r wern**, **corhedydd y coed** a **thelor y coed**) o fwy na 10%.

Ymysg adar cynefinoedd yr ucheldir sy'n cael eu ffermio, dim ond y tueddiadau dosbarthiad ar gyfer y **frân goesgoch** sy'n parhau'n bositif yn y tymor byr a'r tymor hir, tra bod dosbarthiad y **gylfinir**, y **cwtiad aur**, y **rugiarddu**, y **rugiarddu goch** a **mwyalchen y mynydd** i gyd wedi crebachu'n berthynol i Atlas 1970. Roedd tynged rhywogaethau ffermdir yr iseldir ar y rhestr Adran 7 hyd yn oed yn waeth, gyda dosbarthiad chwech yn crebachu o dros 25% dros y cyfnod tymor hir (1970-2010), a phedair (y **betrisen lwyd**, **siglen felen**, y **durtur a golfan y mynydd**) o dros 50%.

Ymysg rhywogaethau eraill, dirywiodd yr **wylan benddu** yn sylweddol yn y tymor byr a'r tymor hir, a bu i'r **gog** brinhau rhywfaint. Cafwyd cynnydd mawr yn nosbarthiad pedair rhywogaeth arall, yn cynnwys y **troellwr bach**, **cwtiad y traeth**, y **troellwr mawr** a **gwylan y penwaig**, rhwng 1990 a 2010, yn dilyn dirywiad yn y cyfnod Atlas cynharach.

Mae dosbarthiad y **gylfin braff** wedi crebachu o fwy na 10% ers 1970.



Dengys y tabl isod newid ym mioamrywiaeth â blaenoriaeth Cymru: rhywogaethau Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a rannwyd i categorïau yn ôl grwpiau cynefin Dangosyddion Cymru.

++ yn nodi cytrefu llwyr lle nad oes modd dyfalu newid.

Categori rhywogaeth a chynefin (Dangosydd Cymru)	% dosbarthiad nythu'r DU yng Nghymru	% dosbarthiad nythu yng Nghymru (1970–2010)	% dosbarthiad gaeafu'r DU yng Nghymru	% newid yn nosbarthiad y gaeaf (1980–2010)
Cynefinoedd sy'n cael eu ffermio				
Grugiar ddu	4.8	-68	4.7	-54
Brân goesgoch	74.7	50	74	30
Gylfinir	8.7	-39	7.9	-14
Cwtiad aur	3.2	-27	7.8	36
Petrisen	2.5	-78	1.9	-70
Cudyll coch	8.3	-15	9.2	0
Cornchwiglen	5.8	-46	8.7	-3
Llinos	10.2	0	9	6
Grugiar goch	6.3	-45	5.7	-16
Bras y cyrs	9.3	0	8.6	31
Mwyalchen y mynydd	11.4	50	7	-
Ehedydd	9	0	9.4	17
Drudwen	8.5	-11	9.6	2
Golfan y mynydd	4.6	-66	4.5	-49
Turtur	0.6	-96	13.3	-
Siglen felen	2.7	-72	0	-
Bras melyn	8.4	-35	7.1	-33
Coedlan				
Coch y berllan	10	2	9.8	9
Llwyd y gwrych	9.4	1	9.4	3
Gylfin braff	17.7	-23	9.9	278
Cnocell fraith leiaf	12.9	-33	7.8	-30
Titw'r gwerni	14.2	-17	13.7	-8
Gwybedog brith	32	13	0	-
Llinos bengoch leiaf	11.4	10	9.2	36
Bronfraith	9	-1	9.6	4
Gwybedog mannog	9.7	-7	20	-100
Corhedydd y coed	13.9	-13	0	-
Titw'r helyg	16.5	-41	14.3	-45
Telor y coed	20	-12	0	-
Arall				
Gwylan benddu	4.8	-52	9	-11
Cog	8.9	-13	0	-
Troellwr bach	11.3	-5	0	-
Gwylan y penwaig	10.9	33	8.5	2
Troellwr mawr	16.7	-21	0	-
Cwtiad y traeth	6	18	9.1	0
Trefol				
Aderyn y to	9.5	0	9.6	5

Categori rhywogaeth a chynefin (Dangosydd Cymru)	% dosbarthiad nythu'r DU yng Nghymru	% dosbarthiad nythu yng Nghymru (1970–2010)	% dosbarthiad gaeafu'r DU yng Nghymru	% newid yn nosbarthiad y gaeaf (1980–2010)
Ddim yn y dangosydd				
Aderyn drycin Balearaidd	0	-	2.3	++
Rhostog gynffonfraith	0	-	11.9	24
Alarch Bewick (Twndra)	0	-	5.6	56
Aderyn y bwn	3.7	-25	9.6	114
Môr-hwyaden ddu	0	-	12.5	6
Bras yr yd	0	-100	0.4	-33
Rhegen yr yd	0.5	-98	0	-
Boda tinwyn	7.6	179	8.2	36
Gwýdd talcen-wen yr Ynys Las	0	-	4.9	-
Cigydd cefngoch	-	-	-	-
Môr-wennol wridog	23.1	0	0	-
Llinos y mynydd	1.5	167	2.4	-12
Ehedydd y coed	0.6	-95	3.4	100

Enillion a cholledion nythu, a difodiant

Rhywogaethau sy'n ffynnu

Mae lledaeniad rhywogaethau anffroddol ar hyd a lled y DU wedi ei ddogfennu'n dda ac mae'r patrwm hwn hefyd yn amlwg yng Nghymru. Dwy o'r rhywogaethau eithaf eang eu dosbarthiad sydd erbyn hyn yn agos at frig y rhestr o adar sydd wedi cynyddu yn y tymor hir a byr ydy **gwýdd Canada** a'r **wýdd lwyd**. O ystyried eu lledaeniad cyflym, eu natur arglwyddiaethol a'u presenoldeb ar y rhan fwyaf o ddyfroedd canolig a mawr eu maint, mae'r effaith y mae'r ddwy rywogaeth fawr hon yn ei gael ar adar dŵr eraill yn debygol o fod yn cynyddu. Mae dosbarthiad **petris coesgoch** hefyd wedi ehangu'n fawr. Fodd bynnag, cynhelir poblogaethau gan fagu dan gaethiwed a'u rhyddhau, ac mae'r cynnydd yn debygol

o fod yn ddibynol ar ddefnydd tir ar gyfer saethu a rheolaeth.

Dros y tymor byr a hir, dengys dadansoddiad bod adar ysglyfaethus, yn ogystal ag ambell i rywogaeth sy'n gysylltiedig â gwlyptiroedd a phlanhigfeydd coedwigoedd anffroddol (**hebog yr ehedydd**, **troellwr mawr**, **pila gwyrdd**, **gylfin groes** a **gwalch Marth**) wedi cynyddu eu dosbarthiad yng Nghymru. Mae'n ymddangos bod y rhywogaethau hyn wedi addasu i argaeledd bwyd a safleoedd nythod ac wedi elwa ohonyn nhw wrth i goedwigaeth planhigfeydd ledled Cymru aeddfedu.

Mae newidiadau i gyfreithiau ac ymarferion rheoli tir yn ein cefn gwlad, yn ogystal

â rhaglenni cadwraeth ymarferol, yn sicrhau buddion i rywogaethau o dan fygythiad. Er enghraifft, mae adar ysglyfaethus fel yr **hebog tramor**, **boda tinwyn** a'r **barcud** yn adfer diolch i leihad mewn erledigaeth; lefelau llai o wenwyn yn eu hysglyfaeth o ganlyniad i newidiadau yn y defnydd o bladdwyr; a rhaglenni cadwraeth wedi eu targedu drwy reolaeth safle dynodedig ac ymdrechion gwirfoddolwyr. Mae dosbarthiad **brain coesgoch** hefyd wedi cynyddu dros gyfnod o amser, ac maen nhw wedi symud i ardaloedd newydd yn ne Cymru. Fodd bynnag, fe all hyn guddio ambell i brinhad yn y nifer sy'n nythu ar safleoedd i mewn i'r tir yng ngogledd Cymru.

Y deg uchaf o ran cynnydd yn y nifer sy'n nythu ers 1968-1972	
Rhywogaeth	% newid
Gŵydd Canada	600
Pila gwyrdd	597
Barcud	468
Hebog tramor	324
Petrisen goesgoch	280
Telor yr hesg	238
Soffliar	182
Boda tinwyn	179
Llwydfron fach	124
Gwyach fach	100

Y deg uchaf o ran cynnydd yn y nifer sy'n nythu ers 1988-1991	
Rhywogaeth	% newid
Gŵydd lwyd	326
Hebog yr ehedydd	273
Gŵydd Canada	224
Cwtiad torchog bach	147
Barcud	123
Gwalch Marth	92
Telor yr hesg	80
Gwylan gefnddu leiaf	70
Petrisen goesgoch	69
Gylfin groes	69

Rhywogaethau sy'n colli tir

Mae ambell i beth sy'n peri syndod yn y rhestr o rywogaethau sy'n dangos y dirywiad mwyaf mewn dosbarthiad yng Nghymru rhwng cyfnodau'r Atlas. Ymysg y rhai sy'n gostwng mae saith rhywogaeth sy'n gysylltiedig â ffermdir yr iseldir a phum rhywogaeth a welir mewn cynefinoedd ffermdir yr ucheldir.

Mae'r **durtur** mwy neu lai wedi diflannu o Gymru fel rhywogaeth sy'n nythu, er bod y prif resymau dros hyn yn ymddangos fel pe baen nhw'n digwydd ledled Ewrop, sy'n

awgrymu bod ffactorau sydd ar waith yn ystod ymfudiad neu ar eu tiroedd gaeafu'n bwysig.

Mae'r rhestr hefyd yn cynnwys rhywogaethau'r goedlan sy'n dirywio'n gyflym megis y **gnocell fraith leiaf**, **titw'r helyg** a'r **cyffyllog**. Mae'r gosityngiad yn y **pibydd coesgoch** rhwng yr Atlasau wedi digwydd yn bennaf o ganlyniad i'w colli'n llwyr o gynefinoedd yr ucheldir, yn ogystal â phrinhad yn y nifer o adar sy'n nythu ar gorsydd heli, sydd wedi cael ei gysylltu â cholled rhannau mawr o'r cynefin hwn.

Mae'n ymddangos mai rhywbeth sy'n digwydd yng Nghymru'n bennaf ydy'r dirywiad amlwg mewn **gwylanod penddu** (i lawr o 52% rhwng 1968–72 a 2007–11).

Mae'r **hwyaden goch** wedi dirywio o ganlyniad rhaglen gadwraeth uniongyrchol a arweiniwyd gan y Llywodraeth i ddileu'r rhywogaeth hon. Mae hi'n frodorol i Ogledd America ac mae hi'n cael effaith andwyol uniongyrchol ar yr **hwyaden benwyn brin** yn ne Ewrop.

10 uchaf o ran colledion nythu ers 1968–1972	
Rhywogaeth	% newid
Rhegen yr yd	-98
Turtur	-96
Ehedydd y coed	-95
Petrisen	-78
Cyffyllog	-78
Siglen felen	-72
Grugiar ddu	-68
Pibydd coesgoch	-67
Golfan y mynydd	-66
Tylluan glustiog	-62

10 uchaf o ran colledion nythu ers 1988–1991	
Rhywogaeth	% newid
Turtur	-83
Hwyaden goch	-78
Pibydd coesgoch	-63
Cyffyllog	-60
Siglen felen	-60
Petrisen	-59
Golfan y mynydd	-52
Tylluan glustiog	-51
Grugiar ddu	-49
Titw'r helyg	-44

Rhywogaethau a gollwyd yn llwyr

Mae rhai o'r colledion o rywogaethau sy'n nythu o Gymru a uwcholeuir yn y dadansoddiad yn wir golledion

o rywogaethau a oedd â phoblogaeth fechan hyfyw yng Nghymru cyn yr Atlas cyntaf (er bod poblogaethau

nythu'n dal ar ôl ganddyn nhw ym Mhrydain). Yn achos rhywogaethau megis y **pibydd torchog** a'r **rhostog**

gynffonddu, cadarnhawyd bod pâr o'r ddwy rywogaeth yn nythu yn ystod yr Atlas cyntaf, cofnodwyd y magu fel "posibl" yn ystod Atlas 1988–91 ac ni chofnodwyd yr un o'r ddwy fel rhai oedd yn nythu'n ystod y cyfnod 2007–11.

Mae rhywogaethau eraill ar y rhestrau "difodiant" yn nythu'n ysbeidiol ym Mhrydain

Cytrefwyr sy'n nythu

Rhywogaethau anffroddol (fel y crybwyllwyd yn flaenorol) sy'n tra-arglwyddiaethu ar y rhestr o rywogaethau i gytrefu Cymru ers diwedd yr 1960au. Fodd bynnag, rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau yma, yn enwedig wrth ystyried y rhywogaethau anffroddol na chafodd eu cofnodi'n ddiibynadwy ar gyfnodau cynharach ac a oedd o bosib yn bresennol bryd hynny.

Mae cytrefu naturiol yng Nghymru gan rywogaethau brodorol wedi digwydd dros amser o ganlyniad i nifer o ffactorau cydberthnasol. Roedd rhywogaethau'r gwlyptir a gwely cyrs megis **telor Cetti** a **boda'r gwerni** eisoes wedi cytrefu yng Nghymru erbyn cyfnod Atlas 1988-91. Roedd y **titw barfog**, y **cambig**, **gwylan Môr y Canoldir** a'r **crêyr bach** wedi ymuno â nhw, y rhywogaeth olaf mewn niferoedd arbennig o uchel, erbyn tymhorau nythu Atlas 2007–11. Roedd **adar y bwn** yn bresennol ar ddiwedd yr 1960au, wedi diflannu erbyn diwedd yr 1980au a bellach yn nythu unwaith eto yng Nghymru.

Mae gan y rhan fwyaf o'r rhywogaethau hyn ddosbarthiad yn ne'r DU ac mae hi bron yn sicr eu bod wedi cytrefu Cymru o

ac roedden nhw'n digwydd bod yn bresennol yn ystod un o gyfnodau arolygu'r Atlas. Ar gyfer rhywogaethau mor anghyson, mae'n debyg bod asesu dosbarthiad yn nhermau sgwariau 10-km a enillwyd neu a gollwyd yn gamarweiniol wrth eu defnyddio mewn proses ecolegol (cytrefu/difodiant) sy'n episodig o ran amser a gofod.

ganlyniad i effeithiau hinsawdd sy'n cynhesu ac sy'n helpu i sicrhau'r amodau priodol ar gyfer nythu a goroesi.

Ymysg cytrefwyr diweddar eraill mae **telor Dartford**, **gwalch y pysgod**, **boda'r mêl** ac – mewn niferoedd bach iawn – y **gylfinbraff ysgarlad cyffredin**, **alarch y Gogledd**, **ehedydd y coed**, **siff-siaff Iberia** a **thelor Marmora**. Cynrychiolwyd y ddwy rywogaeth olaf gan gofnodion ceiliogod a oedd yn cynnal tiriogaethau yn ystod cyfnod nythu Atlas 2007–11.

Roedd rhywogaethau fel y **dryw penfflamgoch**, **brân lwyd**, **tingoch du**, **gwyach gyddfddu**, **hwyaden lostfain**, **gyddfngam** a **hwyaden fwythblu** eisoes wedi cytrefu Cymru erbyn amser Atlas 1988-91, yn bennaf mewn niferoedd bach iawn (ag eithrio'r **dryw penfflamgoch**). Fodd bynnag, mae'r **gyddfngam** bellach wedi diflannu o'r DU.

Mae'r ffigurau hyn hefyd yn uwcholeuo sefydliad a chytrefu llawer o rywogaethau anffroddol yng Nghymru, fel mewn mannau eraill o'r DU, er bod cofnodi anghyson o'r rhywogaethau hynny yn y blynyddoedd cynharach yn golygu bod rhai cytrefwyr o

Ar y llaw arall, canlyniad dirywiad poblogaethau nythu a oedd unwaith yn hyfyw wrth i'w dosbarthiad daearyddol grebachu yw diflaniad **bras yr yd**, **hutan y mynydd** a'r **eos**, nes nad oedden nhw bellach yn digwydd fel rhywogaeth a oedd yn nythu yng Nghymru.

bosib wedi bod yn bresennol llawer ynghynt. Hefyd, nid yw cofnodion o nythu posibl gan rywogaethau anffroddol o anghenraid yn awgrymu bod poblogaeth nythu wedi ei llwyr sefydlu. Mae llawer o ymgeision nythu'n methu ac mae rhai adar yn ddibynnol, o leia'n rhannol, ar fwyd a gyflenwir gan bobl. Hefyd, mae llawer o'r adar a welir yn y gwyllt wedi dianc o gasgliadau adar dŵr neu adardai, er enghraifft.

Serch hynny, mae cytrefu ac ehangiad dosbarthiad nythu rhywogaethau megis **hwyaden Mandarin**, **hwyaden fwsq**, **alarch du** a **pharacit torchog** wedi ei ddogfennu'n dda (mae'r rhain i gyd yn nythwyr sefydledig mewn mannau eraill o Brydain) ac mae'r rhywogaethau hynny'n debygol o fod yma i aros.

Yn ogystal â'r rhywogaethau anffroddol yn y tabl ar dudalen 26, roedd adroddiadau hefyd o ymgeisiadau nythu prin gan y **dylluan eryraidd** (wedi dianc mae'n debyg), **ffesant Arglwyddes Amherst**, **hwyaden y coed**, **hwyaden ddu**, **hwyaden grymanog**, **hwyaid yr eithin y Penrhyn**, **chwiwell clôe** a hyd yn oed y **gwehydd rhesog**.

Rhywogaeth	Eisoes wedi cytrefu Cymru rhwng 1968-71 ac 1988-91	Nifer o sgwariau 10-km yn 2008-2011 ers cytrefu
Telor Cetti	Do	47
Crëyr bach		27
Mandarin (anfrodorol)	Do	26
Telor Dartford		20
Gwalch y pysgod		12
Boda'r mêl		12
Hwyaden fwsg (anfrodorol)		10
Dryw penfflamgoch	Do	9
Hwyaden fwythblu	Do	7
Paun India (anfrodorol)		6
Boda'r gwerni	Do	5
Alarch du (anfrodorol)		5
Gŵydd wyran (anfrodorol)		4
Hwyaden goch (anfrodorol)	Do	4
Aderyn y bwn		3
Paracit torchog (anfrodorol)	Do	3
Brân lwyd ¹	Do	3
Ffesant Reeves (anfrodorol)		3
Gwylan Môr y Canoldir		3
Tingoch du	Do	2
Titw barfog		2
Gylfinbraff ysgarlad		2
Iâr gini helmog (anfrodorol)		2
Cambig		1
Gwyach yddfddu	Do	1
Alarch y Gogledd		1
Ehedydd y coed		1
Hwyaden lostfain	Do	1
Gyddfgam	Do	1
Siff-siaff Iberia		1
Telor Marmora		1



David Kraer (rsbb-images.com)

Ymchwil newydd ac arolygon diweddar

Arolwg cenedlaethol brain coesgoch 2014

Yn 2014, darparodd arolwg o **frain coesgoch** yn y DU ac Ynys Manaw amcangyfrif o 435¹ o barau yn nythu (yn seiliedig ar dystiolaeth o bob ymweliad gan yr arolwg (Hayhow *et al.* in prep)). Mae hwn 3% yn uwch nag amcangyfrif 2002, gan ddefnyddio data cymharol. Pan mae cofnodion o nythu posibl yn cael eu cynnwys, amcangyfrif 2014 yw 498 pâr, y gellir ei gymharu ag amcangyfrif 2002 o 488 pâr. Fel mewn arolygon blaenorol, cafwyd hyd i'r mwyafrif o'r boblogaeth yn 2014 yng Nghymru (55%) ac Ynys Manaw (31%).

Er nad yw'r niferoedd ar gyfer Cymru'n dangos newid sylweddol ers 2002, mae tueddiadau rhanbarthol yn awgrymu rhywfaint o amrywiaeth, gyda phrinhad a chynnydd yn ambell i ardal. Mae canlyniadau'n awgrymu bod niferoedd yn uwch nag yn 1992, yn bennaf ar Ynys Môn a Meirionnydd. Fodd bynnag, ers 2012, mae'r boblogaeth yn Sir Drefaldwyn wedi dirywio 16% o 25 i 21 pâr. Collwyd parau hefyd ar Ynys Môn a Sir Gaernarfon ac ni chafwyd tystiolaeth bod **brain coesgoch** yn nythu yn Nhrefaldwyn yn 2014. Mewn cyferbyniad, roedd niferoedd yn Sir Benfro 25% yn uwch ac wedi cynyddu o 46 i 58 pâr.

Ym Morgannwg, cofnodwyd pedwar pâr a gadarnhawyd yn 2014, o'i gymharu ag un pâr mae'n debyg yn 2002.

Mae poblogaeth y **frân goesgoch** ar Ynys Manaw (2014/15) wedi cynyddu o 94% ers 1992, pan oedd y nifer mae'n debyg yn 68 pâr. Fodd bynnag, ers 2002, cofnodwyd bod y boblogaeth wedi cynyddu o 16%, gyda 132 o barau'n nythu.

Yn 1992 roedd poblogaeth yr Alban yn 82 pâr, yn cynnwys sawl pâr ar y tir mawr, ond erbyn 2002 roedd y nifer wedi gostwng i 71. Mae'r arolwg diweddaraf yn awgrymu dirywiad parhaus; mae'r boblogaeth wedi gostwng o 25% ers 2002 i 53 pâr yn 2014. Mae'r boblogaeth gyfan bellach ar ynysoedd Islay a Cholonsay. Ar Islay, mae'r boblogaeth wedi gostwng o 18% ers 2002. Ar Colonsay, mae'r niferoedd wedi bod yn fwy amrywiol, gyda naw pâr yn cael eu cofnodi yn 1992, yn codi i 14 pâr yn 2002, cyn gostwng eto i saith pâr yn magu yn 2014.

Mae'r boblogaeth yn Lloegr wedi cynyddu o un pâr yn nythu yn 2002 i saith pâr yn nythu yn 2014. Yn ne orllewin Lloegr cynhaliwyd yr arolwg ar bob ardal o arfordir priodol yng Nghernyw a rhai

ardaloedd yn Nyfnaint lle'r oedd **brain coesgoch** wedi eu cofnodi yn flaenorol ers yr arolwg diwethaf, felly mae'n annhebygol na chafwyd hyd i barau ychwanegol.

Gellir darparu cyd-destun i arolygon cyfrifiad blwyddyn yn unig drwy gymharu canlyniadau gyda rhai a gafwyd o fonitro rhanbarthol neu leol blyneddol. Yng ngogledd a chanolbarth Cymru mae mwy o waith arolygu dros y ddau ddegawd diwethaf wedi gwella'n sylweddol ein gwybodaeth am safleoedd nythu **brain coesgoch** ledled yr ardal fawr hon.

O ganlyniad i hyn, mae'r nifer o safleoedd nythu sy'n cael eu monitro wedi cynyddu. Goblygiad hyn yw bod arolygon blaenorol o bosib wedi tan-amcanu'r boblogaeth yn y rhanbarth hwn, sy'n golygu'r posibilrwydd bod y gwir brinhad yn fwy nag a adroddir yma.

Mae asesiadau o'r fath ar y gweill ar hyn o bryd gan ddefnyddio data monitro blyneddol a data o dri degawd o ddefnyddio modrwyau lliw yng Nghymru. Bydd y canlyniadau yn cael eu cyhoeddi mewn papur *Adar yng Nghymru* yn ddiweddarach eleni.

¹ Cyflwynodd adroddiadau rhagarweiniol o arolwg 2014 amcangyfrif o 393/394 o barau wedi eu cadarnhau a pharau tebygol yn seiliedig ar y fethodoleg dau-ymweliad (Hayhow *et al.* 2015, Holling 2016) ac roedden nhw o 2014 yn unig. Mae'r canlyniadau a gyflwynwyd yma'n defnyddio data o bob ymweliad arolwg a wnaethpwyd yn 2014, ac yn 2015 ar gyfer ardaloedd ychwanegol ar Ynys Manaw lle nad oedd cyfrifon wedi eu cynnal ym mlwyddyn yr arolwg.

Arolwg boda tinwyn cenedlaethol 2016

Arolygwyd poblogaeth y **boda tinwyn** yn y DU ac Ynys Manaw yn 2016, y pumed arolwg llawn ers 1988/89. Amcanion yr arolwg oedd darparu'r amcangyfrifon diweddaraf o faint y boblogaeth, adnabod tueddiadau, a darparu data ar gyfer dadansoddiad pellach o'r rhesymau dros newid.

Yn 2016, roedd amcangyfrif o 575 pâr tiriogaethol yn y DU ac Ynys Manaw (terfyn hyder 95% 477–694), dirywiad anarwyddocaol o 13% ers 2010. Roedd Cymru'n cynnal 35 pâr tiriogaethol yn 2016, dirywiad o 39% ers 2010.

Ehangwyd ardaloedd arolygu yng Nghymru yn 2016 o'i gymharu â 2010, gyda 49 o sgwariau 10-km yn cael eu harolygu yn 2016 a 36 yn 2010 (Ffigur 1). Roedd hyn yn cynrychioli pob sgwâr 10-km yn yr ardal arolygu nythu a ddiffiniwyd. Roedd cyfrif mwy o sgwariau'n bosibl diolch i

ymdrechion aelodau o Grŵp Astudio Adar Ysglyfaethus Cymru, dau weithiwr maes a gyflogwyd gan yr RSPB, a staff a gwirfoddolwyr yr RSPB, Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrrff cadwraeth eraill.


Gostyngodd poblogaeth y **boda tinwyn** yng Nghymru o 39% rhwng 2010 a 2016, o 57 i 35 o barau tiriogaethol, ar ôl cynnydd rhwng 1998 a 2004, a 2004 i 2010 (gweler Ffigur 2). Arolygwyd y ddwy Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) a ddynodwyd ar gyfer **bodaod tinwyn** yng Nghymru – y Berwyn a'r Migneint-Arenig-Dduallt – yn drwyadl yn 2016, a chofnodwyd deg pâr tiriogaethol ym mhob AGA (57% o gyfanswm Cymru). Mae hyn yn cymharu â 13 ac 16 pâr tiriogaethol yn 2010 (51% o'r cyfanswm Cymreig yn 2010).

Mae'n debyg bod y newidiadau i boblogaeth y **boda tinwyn** yng Nghymru

wedi digwydd oherwydd cyfuniad o ffactorau, gyda thymhorau dilynol o dywydd gwael o bosibl yn effeithio ar y nifer o barau tiriogaethol/ yn nythu a gofnodwyd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'n debyg bod cyfuniad o dywydd gwael yn y gwanwyn, prinder ysglyfaeth a newid mewn rheolaeth o amgylch rhai safleoedd a ddefnyddir yn rheolaidd (yn gysylltiedig o bosib â phrinder ysglyfaeth) wedi peri cynhyrchedd isel.


Mae niferoedd a dosbarthiad y **boda tinwyn** wedi bod yn cynyddu'n araf ers iddyn nhw ail-gytrefu Cymru yn hwyr yn yr 1950au. Er nad ydym eto'n gwybod achosion uniongyrchol y dirywiad hwn yn eu niferoedd, mae'r **boda tinwyn** yn wynebu amrywiaeth o fygythiadau ac mae canlyniadau'r arolwg yn rheswm i ni edrych ar hyn yn fwy trwyadl.

Ffigur 1. Yr ardaloedd a arolygwyd yng Nghymru yn 2016 a 2010. Mae'r dotiau du o fewn pob sgwâr yn nodi cyfrifon sero ac mae'r cylchoedd coch graddedig yn dangos y nifer o barau tiriogaethol (graddfa 1-8). Dangosir y ddwy AGA a ddynodwyd ar gyfer **bodaod tinwyn** - y Berwyn a'r Migneint-Arenig-Dduallt - sy'n nythu yng Nghymru mewn pinc.



2016 2010

Ffigur 2. Tueddiadau yn y nifer o barau tiriogaethol o **bodaod tinwyn** yng Nghymru o'r arolwg cenedlaethol cyntaf yn 1988/89, hyd 2016.



Archwilio symudiadau bodaod tinwyn Cymru wedi iddyn nhw hedfan y nyth

Yn wahanol i lawer o adar ysglyfaethus eraill, mae hi'n anodd rhagweld symudiadau **bodaod tinwyn** wrth iddyn nhw chwilota am fwyd, am gymar neu fan diogel i glwydo. Er y bydd llawer yn aros yn gymharol agos at y safleoedd lle'u magwyd (ym mynyddoedd, rhostiroedd, brynau a chymoedd gogledd a chanolbarth Cymru), fe all rhai deithio hyd a lled y wlad, neu hyd yn oed draw i dde Ewrop.

Bydd gwaith tagio arloesol â lloeren yn y maes a roddwyd ar waith yn ystod haf 2017 yn ein galluogi, am y tro cyntaf, i dracio adar ifanc a fagwyd ar rostiroedd Cymru dros gyfnod o dair blynedd. Wrth ddilyn eu gwasgariad o safleoedd nythu, byddwn yn gallu dysgu mwy am eu hecolog yn y wlad hon a thu hwnt.

Ariannwyd a chydlynwyd y gwaith hwn fel rhan o Broject Boda Tinwyn LIFE+ yr RSPB, rhaglen pum-mlnedd uchelgeisiol i warchod y **boda tinwyn** yn y

DU. Wrth ganolbwyntio ar y poblogaethau mwyaf bregus yng ngogledd Lloegr a de a dwyrain yr Alban, amcan y project yw integreiddio elfennau gwahanol o waith yr RSPB ar y **boda tinwyn** yn ddull cydlynol a strategol o fynd i'r afael â'u cadwraeth. Mae hwn wedi cyfuno gwarchodaeth ymarferol ar y ddaear, gwaith archwilio, tagio lloeren, monitro ecolegol, gwyddoniaeth, polisi, eiriolaeth ac ymwneud â'r gymuned.

Mae tagio lloeren yn greiddiol i'r wyddoniaeth sy'n sail i'r dull hwn o weithredu project. Datgelwyd gan astudiaethau blaenorol pa mor eang eu dosbarthiad yw'r **boda tinwyn**, gydag unigolion yn symud yn rheolaidd rhwng yr Alban, Lloegr, Cymru a hyd yn oed Ynys Manaw ac Iwerddon. Mae'r symudiadau yma'n digwydd drwy wasgaru o safle eu nyth ar y ystod ymfudo tymhorol o ardaloedd nythu ar yr ucheldiroedd i glwydfannau ar yr iseldir yn y gaeaf.

Mae'r pellteroedd y mae'r adar yn eu teithio'n amrywio'n fawr rhwng unigolion ac mae eu natur anrhagweladwy, crwydrol yn peri heriau enfawr i'w cadwraeth. Mae deall deinamig y poblogaethau, o fewn ardaloedd gwarchoddedig a, chyn bwysiced o bosibl, oddi allan iddyn nhw, yn allweddol er mwyn adnabod lle all yr adar yma fod ar eu mwyaf bregus. Y project hwn yw'r fenter gyntaf sy'n defnyddio cydlynol gan dagio lloeren i gyflenwi gwybodaeth ar gyfer gweithredu cadwraethol dilynol uniongyrchol dros ardal ddaearyddol fawr sy'n ecolegol ystyrlon.

Wrth dracio symudiadau adar unigol, adnabuwyd dros 100 o safleoedd clwydo a nythu nad oedden ni'n gwybod amdany'n nhw cyn hyn, ac o ganlyniad mae'n bosibl monitro'r rhain ar y ddaear a'u gwarchod. Bydd tagio lloeren hefyd yn darparu golwg ar raddfa marwolaeth y **boda tinwyn**, drwy ein galluogi i adnabod achosion marwolaeth lle gellir dod o

Ymchwil newydd ac arolygon diweddar

hyd i adar marw. Bydd hefyd yn ein galluogi i uwchleuo "mannau tywyll" - ardaloedd lle mae risg fawr o erledigaeth yr adar yma. Fe all tagio adar ifanc yng Nghymru, ac mewn rhanbarthau eraill lle ystyrir bod erledigaeth yn llai o fygythiad i oroesiad (ee gogledd orllewin yr Alban, Ynysoedd Erch ac Ynys Manaw), hefyd ein helpu i gynyddu ein dealltwriaeth o ddeinameg y poblogaethau. Hynny ydy, sut all lefelau uchel o erledigaeth mewn rhai rhannau o'r DU fygwth poblogaethau mwy sefydlog, drwy lif unigolion sy'n gwasgaru o'r ardaloedd hyn.

Mae'r canlyniadau cyntaf o'r astudiaethau Cymreig wedi bod yn hynod ddifyr, gan arddangos mor grwydrol y gall **bodaod tinwyn** ifanc fod. Fodd bynnag, mae'r canlyniadau hefyd wedi dangos mor anodd y gall misoedd cyntaf o fywyd fod i **fodaod tinwyn**, hyd yn oed lle mae erledigaeth yn llai o her. Fel gydag astudiaethau eraill, mae amseriad y gwasgaru o'r nyth wedi bod yn amrywiol, gydag ambell aderyn yn crwydro'n fuan ar ôl gadael y nyth, ac eraill yn fwy cyndyn a phetrus o ran eu symudiadau cyntaf.

Unwaith mae'r adar ifanc yma'n barod i wasgaru, fe all graddfa ac ehangder eu symudiadau fod yn aruthrol.

Am fwy o wybodaeth ewch i: rspb.org.uk/henharrierlife

Mae'n ymddangos bod eu hymddygiad crwydro cychwynnol yn canolbwyntio ar gynefinoedd nodweddiadol rhostir yr ucheldir, er nad ydyn nhw bob amser wedi eu cyfyngu i'w mannau nythu traddodiadol. Symudodd un iâr wedi ei thagio 300km ar draws fryniau Cymru mewn pedwar diwrnod yn ystod mis Medi 2017, gan grwydro o Rostir Llandegla yn y gogledd, i Fannau Brycheiniog yn y de. Cofnodwyd symudiadau mentrus tebyg gan iâr arall wedi ei thagio a hedfanodd tua'r de i ucheldir Gwlad yr Haf, yn dilyn cyfnod sefydlog ym mryniau Sir Drefaldwyn yn gynnar ym mis Hydref 2017, cyn dychwelyd i'r un safle yng nghanolbarth Cymru, i gyd o fewn cyfnod o 4 diwrnod.

Taith grwydro hydrefol ceiliog ifanc, a fagwyd ac a dagiwyd ar fynyddoedd y Berwyn, oedd yr ymddygiad ymfudo mwyaf trawiadol o bell a gofnodwyd yn ystod yr astudiaeth Gymreig hon hyd yma. Yn dilyn cyfnod eithaf sefydlog yn ardal ei enedigaeth neu'n agos ati, aeth yr aderyn hwn ar daith hynod o benderfynol tua'r de i ranbarthau arfordirol gogledd orllewin Ffrainc, gan deithio pellter o 600km mewn dim ond dau ddiwrnod. Amser a ddengys a fydd unrhyw un o'r adar yma'n dychwelyd i rostiroedd Cymru i fagu.

Rhoir dadansoddiad gwyddonol o'r data gwerthfawr a gesglir drwy dagio lloeren o **fodaod tinwyn** ifanc ar waith yn ystod y Project LIFE+ ac ar ei ôl. Bydd hyn yn ychwanegu at astudiaethau blaenorol ac yn helpu i gyflenwi gwybodaeth ar gyfer gwaith modelu poblogaeth sydd ar y gweill ar hyn o bryd ar y rhywogaeth hon.

Cyhoeddir hanes symudiadau is-set o'r adar drwy gyfrwng gwefan benodol. Mae hyn yn helpu i godi ymwybyddiaeth am ecoleg y **boda tinwyn** ac yn annog dealltwriaeth ac adnabyddiaeth eang o'r adar hyn fel rhan hanfodol o fywyd gwyllt Prydain, sy'n haeddu cadwraeth angenrheidiol. Fe all gwybodaeth y cyhoedd o'r ffaith fod **bodaod tinwyn** wedi eu tagio lloeren drosglwyddo rhyw raddfa o warchodaeth drwy weithredu i rwystro erledigaeth. Gobeithio y bydd gwaith tagio lloeren yn parhau yng Nghymru yn ystod 2018.

Ymgymerir â'r gwaith hanfodol hwn drwy gyfrwng Project Boda Tinwyn LIFE+. Yng Nghymru fe'i cefnogir gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn ogystal â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a thirfeddiannwr preifat sydd wedi caniatáu i'r gwaith ddigwydd ar ei dir.

Ymchwilio'r dirywiad yn nifer y gylfin braff


Y **gylfin braff** yw'r mwyaf o deulu'r pincod ym Mhrydain ac mae'n un o gasgliad o arbenigwyr y goedlan sydd wedi dirywio'n sylweddol o ran poblogaeth yn y degawdau diweddar. Cofnododd Atlas Adar 2007–11 brinhad o 76% o fewn sgwariau 10-km gyda thystiolaeth o nythu ac mae amcangyfrifon yn awgrymu bod llai na mil o barau'n parhau yn y DU. Er bod y **gylfin braff** yn eang ei ddsbarthiad ar un pryd, cyfyngir nythu yn bennaf erbyn hyn i ychydig o fannau gyda phoblogaeth gref. Mae Cymru'n arbennig o bwysig, gyda phoblogaethau craidd yn nyffrynnoedd yr Wy a'r Mawddach.

Ers 2012, mae'r RSPB wedi bod yn gweithio gyda grwpiau astudiaeth lleol y **gylfin braff** i archwilio i achosion posibl eu dirywiad. I ddechrau, roedd y project yn cymharu ardaloedd o golled gydag ardaloedd o bresenoldeb nythu parhaus, a darganfuwyd bod y **gylfin braff** yn fwy tebygol o oroesi lle mae dwysedd uwch o goedlannau aeddfed, collddail. Yn fwy diweddar, mae'r project wedi defnyddio trosglwyddwyr-radio bach a osodir ar yr ieir sy'n nythu yn y ddwy brif boblogaeth yng Nghymru. Roedd ymchwilyr yn gallu tracio'r adar yn ôl i'w nythod, gan ddilyn cynnydd drwy wyllo uniongyrchol a thrwy gyfrwng camerâu annibynnol. Gydag oddeutu 70 o nythod yn cael eu monitro yn ystod 2013–17, mae llwyddiant nythu a chynhyrchedd o fewn yr ardaloedd astudiaethau yn ymddangos yn rhesymol ac yn annhebygol o fod yn peri colledion.

Am fwy o wybodaeth, ewch i: rspb.org.uk/science

Ymchwil newydd ac arolygon diweddar

Breeding Relative Abundance 2008–11



Yn 2017, o ganlyniad i dechnoleg newydd, gosodwyd tagiau GPS hynod o ysgafn (1g) ar **ylfin praff** yn ardal astudiaeth y Mawddach. Mae'r tagiau hyn yn tracio lleoliad yr adar yn fanwl gywir bob awr dros gyfnod o wythnos neu bythefnos. Wrth ymweld â'r lleoliadau cofnodi darparwyd ymchwilyr gyda dealltwriaeth newydd o ddefnydd cynefin a datgelwyd bod yn well gan y **gylfin braff** gyrion coedlannau. Helpodd y tagiau hefyd i ddatgelu pwysigrwydd tymhorol rhywogaethau o goed unigol – er enghraifft, defnyddir cryn dipyn ar goed ceirios tra'u bod yn ffrwytho yn ystod mis Mehefin.

Mae ffocws y project erbyn hyn yn symud oddi wrth y tymor nythu i edrych ar

ddeiet, chwilita am fwyd a chyflenwadau bwyd drwy gydol y flwyddyn. Mewn cydweithrediad â Phrifysgol Caerdydd, bydd astudiaeth PhD yn archwilio deiet drwy ddadansoddiad enetig o samplau o faw y **gylfin braff**. Bydd tracio pellach yn ystod y gaeaf, ynghyd â mapio cynefin manwl, yn galluogi modelu adnoddau bwyd ledled tirlun yr astudiaeth. Yr amcan yn y pen draw yw darparu presgripsiynau rheolaeth, y mae modd eu trosglwyddo i ardaloedd eraill, a fydd yn helpu adferiad poblogaeth y **gylfin braff**.

Arweinir yr ymchwil hanfodol hwn gan yr RSPB ac fe'i gefnogir gan Natural England, Cyfoeth Naturiol Cymru a gwirfoddolwyr lleol.




Cadwraeth ar waith

Achub y gylfinir

Mae'r DU yn gartref i oddeutu chwarter o boblogaeth y byd o'r **gylfinir**, ond mae niferoedd yma wedi gostwng o 48% ers 1995, sydd wedi arwain at ddisgrifio'r **gylfinir** fel "blaenoriaeth gadwraeth bwysicaf y DU". Yng Nghymru, mae'r colledion yma

hyd yn oed yn fwy brawychus; mae dros thri-chwarter o boblogaeth y **gylfinir** yng Nghymru wedi diflannu dros y 25 mlynedd diwethaf, heb unrhyw awgrym bod y tueddiad yn mynd i newid.



Deall anghenion cynefin

Mae **gylfinirod** yn adar arbennig o heriol i'w hastudio. Ar eu tiriogaethau nythu, mae eu galwad hiraethus a'u harddangosfeydd yn yr awyr yn hawdd i'w hadnabod: ond ar y ddaear maen nhw'n hynod o swil ac mae ganddyn nhw warchodliw da.

Yn 2016, cydweithiodd yr RSPB a'r BTO i gynnal peilot o'r genhedlaeth ddiweddaraf o dagiau GPS bychan ar dri aderyn yn nythu ger Ysbyty ar y Migneint. Mae'r tagiau yma mor fach fel ei bod yn bosib eu gludo ar gefn yr aderyn (heb angen harnais) a lawrlwytho eu data lleoliad i dderbynnydd a yrrir gan olau'r haul (felly dim ond unwaith mae angen dal yr aderyn). Mae'r tagiau'n dod i ffwrdd yn naturiol unwaith y bydd yr adar yn dechrau bwrw eu plu ym mis Awst a mis Medi ar ôl iddyn nhw nythu.

Ni ddangosodd y **gylfinirod** a dagiwyd unrhyw ymateb i'r tagiau – roedd eu hymddygiad yn gwbl naturiol. Fodd bynnag, roedden nhw'n herio bron pob dim yr oeddem ni'n ei gredu ein bod yn ei wybod am diriogaethau

nythu. Defnyddiodd yr adar wahanol ardaloedd gofodol a lleoliadau yn ystod y dydd i'r rhai a ddefnyddid ganddyn nhw'n ystod y nos, gydag un aderyn yn treulio'r nos 3km i ffwrdd o'i diriogaeth yn ystod y dydd. Roedd yr adar i gyd yn rhannu'r rhan fwyaf o'r ardal, gyda gorgyffwrdd tiriogaeth o fwy nag 80%. Roedd hi'n ymddangos mai'r unig ardaloedd oedd yn cael eu hamddiffyn rhag adar eraill oedd 100m o gwmpas y nyth ei hun. Cynyddodd

maint tiriogaethau'r **gylfinir** yn sylweddol wrth i'r tymor nythu fynd yn ei flaen, ond roedden nhw i gyd yn fawr: roedd y lleiaf yn 40ha, a'r mwyaf yn 4,000ha, er bod y mwyaf yn debygol o fod wedi cynnwys symudiadau ar ôl nythu.

Rhannwyd defnydd y gylfinirod o gynefin yn categorïau gan y math o dir o fewn polygonau tiriogaeth safonol neu, fel arall, y defnydd tir o dan pob lleoliad GPS unigol. O ran ardal, roedd hi'n ymddangos bod yr adar



Mae'n bosib tracio **gylfinirod** gyda thechnoleg GPS.

Rachel Taylor

yn osgoi'r holl fathau o welltir, rhostiroedd a choedlannau, a bod yn well ganddyn nhw laswellt corsiog a chorsydd. Mewn cyferbyniad, roedd dadansoddiad yn ôl pwyntiau lleoliad yn uwchleuo dewis yr adar o welltir wedi ei wella – rhywbeth yr oeddem hefyd wedi sylwi arno yn y maes.


Profwyd y dull hwn o weithredu a'r dechnoleg GPS yn llwyddiannus gan yr astudiaeth peilot, ac mae wedi rhoi cyfeiriad pwysig i ni ar gyfer ymchwil yn y dyfodol. Mae hefyd wedi darparu golwg werthfawr ar ddeinamig y **gylfinir**. Er enghraifft, mae'n bosibl bod ein dealltwriaeth o anghenion cynefin nythu'r **gylfinir** yn cael ei ddylanwadu gan ein dibyniaeth ar fonitro gweledol, oherwydd rydym yn cofnodi adar lle'r ydym yn eu gweld, nid o anghenraid yn lle maen nhw'n treulio'r rhan fwyaf o'r amser.

Profi atebion

Mewn ymateb i brinhad pryderus y **gylfinir**, rhoddodd yr RSPB raglen adfer pum-mlynedd y **gylfinir** ar waith yn 2015, gyda'r amcan o wella'r disgwyliadau cadwraeth ar gyfer y rhywogaeth hon.

Yn greiddiol i'r rhaglen hon mae Project Prawf Rheoli Gylfinirod, menter ar raddfa'r tirlun, sy'n cael ei rhoi ar waith ledled chwe ardal allweddol yn y DU ac sy'n rhoi prawf ar atebion ar gyfer rheoli adferiad y **gylfinir**.

Amcan y project hwn yw mynd i'r afael â chynhyrchedd isel ym mhoblogaethau'r **gylfinir** (prif reswm dros y prinder presennol) drwy dreialu pecyn cyfunol o reoli cynefin a rheoli



BTO/RSPB

Data tracio sy'n dangos defnydd gwahanol gynefinoedd ar raddfa'r cae gan **ylfinirod** sy'n nythu.

Dengys y project peilot y dylem fod yn chwilio am atebion ar raddfa'r tirlun. Yng Nghymru, maint cae ar gyfartaledd ydy 5ha a maint fferm yw 48ha, sy'n awgrymu na all llawer o ffermydd unigol gynnal pâr o **ylfinirod**. Yn y

ysgylfaethwyr. Gobeithir y bydd yr ymyrraeth yma'n cynyddu llwyddiant nythu ac amllder nythu dilynol dros y cyfnod o bum-mlynedd.

Bydd y gwaith rheoli'n cynnwys torri a llosgi llystyfiant er mwyn gwella amodau cynefin ar gyfer nythu a chwilota am fwyd, a lleihau'r nifer o lwynogod a brain drwy raglen rheolaeth wedi ei thargedu. Os bydd yr ymyrraeth yma'n llwyddiannus, bydd yr wybodaeth a gawn yn helpu i lunio a chyflenwi gwybodaeth ar gyfer gwaith polisi a chynghori yn y dyfodol, gyda'r nod o sicrhau bod presgripsiynau priodol yn cael eu hymgorffori i gynlluniau amaeth-

peilot hwn, roedd yr adar yn defnyddio adnoddau sawl fferm gyfagos, sy'n golygu bod ymyrraeth ar raddfa'r fferm neu gae o bosib yn rhy fach i ddarparu'r adnoddau sydd eu hangen ar y **gylfinir** i nythu'n llwyddiannus yng Nghymru.

amgylcheddol a rhaglenni rheolaeth tir ysgogol tebyg.

Ym mhob un o'r chwe ardal allweddol, mae pâr o safleoedd wedi eu dewis, gan ffurfio safle "prawf" (lle bydd rheolaeth wedi ei thargedu'n digwydd) a safle "rheoli" (lle bydd rheolaeth bresennol yn parhau). Bydd hyn yn ein galluogi i wahanu ac asesu effeithiau rheolaeth, yn enwedig rheoli ysgylfaethwyr, rhwng safleoedd.

Yng Nghymru, mae'r safle prawf yn cynnwys arwynebedd o 1000ha o rostir ger Ysbyty Ifan, ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig y Migneint (SDdGA). Saif y safle rheoli ychydig tua'r

dwyrain, yng Ngwytherin ar rostir Hiraethog. Rhoddwyd rhaglen ddwys o waith monitro ar waith ar y ddau safle, gan asesu'r nifer o **ylfinirod**, amler ysglyfaethwyr a nodweddion llystyfiant. Mae'r arolygon hyn wedi cynhyrchu poblogaethau man cychwyn ar gyfer pedwar pâr sy'n nythu ar y safle prawf ac un pâr ar ddeg ar y safle rheoli.

Mae asesu cyflwr presennol y cynefin yn allweddol i ddod o hyd i wybodaeth lle mae angen ymyrraeth uniongyrchol ar safle'r prawf. Mae ymchwil blaenorol a dadansoddi data a gasglwyd yn ystod blwyddyn cyntaf y project wedi dangos ei bod yn well gan y **gylfinir** gynefinoedd sydd â dwyster llystyfiant is a dim ond gorchudd brwyn cymedrol. Mae'r amrywiaethau yma yn y llystyfiant yn cael eu monitro bob blwyddyn ledled y safle cyfan, ac mae manau lle nad yw amodau llystyfiant yn ffafriol yn cael eu mapio, fel bod modd targedu gwaith torri gwelltir os yn briodol ac yn ymarferol (gan osgoi cyrion coedwigoedd a safleoedd adar ysglyfaethus sy'n nythu ar y ddaear).

Ychydig neu fawr o ddim gwaith rheoli cynefin oedd yn digwydd ar y safle prawf cyn rhoi'r project hwn ar waith, ac roedd dwyster da byw hefyd

Am fwy o wybodaeth ar y **gylfinir** ac ymdrechion i ddod â'r dirywiad i ben, ewch i bto.org/science/latest-research/decline-curlew rspb.org.uk/our-work/conservation/projects/curlew-recovery-programme



Mae Project Prawf Rheoli Gylfinirod yn hynod o ddibynnol ar gefnogaeth ffermwyr a thirfeddianwyr.

wedi gostwng yn sylweddol o'i gymharu â lefelau hanesyddol. Mae'n debygol iawn, felly, y bydd amodau cynefin wedi dirywio i'r **gylfinir** dros y degawdau diwethaf a bydd y prawf hwn yn penderfynu a all ymyrraeth wrthdroi'r tueddiad hwn a chynhyrchu ymateb yn y boblogaeth nythu.

Mae'r project yn ddibynnol iawn ar gefnogaeth ffermwyr a thirfeddianwyr ar bob un o'r safleoedd. Mae'r gwaith rheolaeth a rheoli ysglyfaethwyr yn Ysbyty yn cael ei sicrhau o fewn casgliad o gytundebau rheolaeth gyda'r porwyr ar y rhostir, y rhan fwyaf ohonyn nhw'n denantiaid yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar eu stad eang yma. Mae perthnasau gweithio hefyd yn cael eu datblygu gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chyfoeth Naturiol Cymru, yr awdurdod sy'n rhoi caniatâd ar SDdGA.

Mae'r project yn anelu at gwblhau gwaith rheolaeth ledled o leiaf 10% o bob safle prawf. Bydd ateb yr amcan hwn yn hanfodol bwysig er mwyn dysgu a ydy mesurau gwella wedi cael effaith y gellir ei mesur ar ansawdd cynefin, a llwyddiant nythu a'r nifer o barau o **ylfinirod**. Hyd yma mae cynnydd tuag at y targed lleiafswm o ymyrraeth wedi bod yn dda ym mhob un o'r

safleoedd prawf, a dylid ei wireddu yn Ysbyty (100ha) erbyn diwedd gaeaf 2017/18.

Ledled safleoedd y project yn y DU, y nifer o **ylfinirod** ar gyfartaledd oedd 15 pâr yn nythu fesul 10km² yn ystod 2017, cynnydd bach ar y flwyddyn flaenorol. Cofnodwyd cynnydd bach ar y ddau safle Cymreig yn ystod y flwyddyn hon. Llwyddodd 25% y cant o barau o **ylfinirod** i fagu o leiaf un cyw yn ystod 2017, dirywiad ar y llwyddiant gobeithiol o 40% a nodwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae canlyniad 2017 yn cynrychioli cynnydd ar ddata'r flwyddyn ddechreuol yn 2015, pan nad oedd llwyddiant nythu ond 18% ar gyfartaledd.

Mae cynhyrchedd cynyddol o fewn y boblogaeth fechan ar Ysbyty'n parhau i gyflwyno gryn her, ac ychydig o welliant a gofnodwyd yn ystod tair blynedd cyntaf y prawf. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith rheoli cynefin yn digwydd yn ystod hydref/gaeaf 2017/18 a bydd ymdrechion rheoli ysglyfaethwyr nawr yn cael eu hymestyn mewn ymdrech i fynd i'r afael â hyn. Serch hynny, amser a ddengys a fydd pum mlynedd o ymyrraeth yn newid tynged **ylfinirod** ar y safle hwn.

Adar dŵr sy'n gaeafu

Monitro tymor hir o adar dŵr nad ydyn nhw'n nythu yng Nghymru

Mae arfordir ac aberoedd Cymru'n cynnal niferoedd o adar dŵr sy'n gaeafu sy'n rhyngwladol bwysig. Mae'r Arolwg Adar Gwlyptir (WeBS) wedi monitro'r rhain yn flynyddol ers yr 1960au, gan ddatblygu o'r Cynllun Cyfrif Adar Dŵr Cenedlaethol a gychwynnodd ar ddiwedd yr 1940au.

Heddiw, ariennir WeBS gan bartneriaeth o'r BTO, yr RSPB a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) mewn cydweithrediad â'r WWT. Mae'r rhain i gyd wedi ariannu'r cynllun ers dros 40 mlynedd.

Dengys tueddiadau WeBs yng Nghymru bod niferoedd adar dŵr sy'n gaeafu yn codi a gostwng gyda threigl amser, ond drwyddo draw mae bron i hanner y rhywogaethau gyda'u tueddiadau wedi eu gwirio wedi dirywio yn y cyfnod 25 mlynedd o ymchwil a'r cyfnod 10 mlynedd.

Maen nhw'n dangos bod dirywiad tymor hir rhai adar rhydiol sy'n gaeafu yng Nghymru megis y **cwtiad torchog, pibydd y mawn** a **rhostog gynffonfraith** yn parhau. Efallai mai'r rhesymau dros rai o'r newidiadau a welwn mewn amler yw

newid mewn hoff ardaloedd gaeafu ac argaeledd bwyd dros amser o ganlyniad i newid hinsawdd.

Mae llawer o'n rhywogaethau o hwyaid sy'n gaeafu wedi dirywio, yn cynnwys **gŵydd talcen-wen yr Ynys Las**, yr **hwyaden bengoch** a'r **hwyaden lostfain**.

Yma dangosir tueddiadau yn y nifer o adar dŵr sy'n gaeafu yng Nghymru ers dechrau'r 1990au.

Rhywogaeth	% tueddiad 25 mlynedd (1990/91-2015/16) ¹	% tueddiad 10 mlynedd (2005/06-2015/16) ¹	BoCCW3
Alarch dof	72	-21	Green
Alarch Bewick (twndra)	-100	-100	Red
Alarch y Gogledd	-68	-43	Green
Gŵydd talcen-wen Ewropeaidd	-100	-100	Red
Gŵydd talcen-wen yr Ynys Las	-	-65	Red
Gŵydd wyllt	56	19	Green
Gŵydd Canada	640	-2	Green
Gŵydd ddu bol tywyll	8	-2	Green
Hwyaden yr eithin	-26	-6	Orange
Chwiwell	23	-22	Orange
Hwyaden lwyd	156	78	Green
Cor-hwyaden	-9	0	Orange
Hwyaden wyllt	-44	-17	Orange
Hwyaden lostfain	63	-48	Orange
Hwyaden lydanbig	81	-26	Orange
Hwyaden bengoch	-88	-75	Red
Hwyaden gopog	49	59	Green
Hwyaden lygad-aur	-40	-24	Green
Hwyaden frongoch	-27	-20	Orange
Hwyaden ddanheddog	90	20	Green

Rhywogaeth	% tueddiad 25 mlynedd (1990/91–2015/16) ¹	% tueddiad 10 mlynedd (2005/06–2015/16) ¹	BoCCW3
Hwyaden goch	-100	-100	
Gwyach fach	136	-2	
Gwyach fawr gopog	81	3	
Mulfran	87	27	
Cwtiar	-34	-31	
Pioden y môr	15	8	
Cwtiad torchog	-58	-32	
Cwtiad aur	187	-29	
Cwtiad llwyd	-73	-42	
Cornchwiglen	68	-9	
Pibydd yr aber	36	-39	
Pibydd y tywod	48	-28	
Pibydd y mawn	-55	-24	
Rhostog gynffonddu	16	-73	
Rhostog gynffonfraith	-74	-33	
Gylfinir	-30	-7	
Pibydd coesgoch	23	40	
Cwtiad y traeth	-47	-17	

1. Tueddiadau yw'r newid yn y canrannau rhwng gwerthoedd y mynegeion wedi eu llyfnu am gyfnodau 25 mlynedd (1990/91 i 2015/16) a 10 mlynedd (2005/06 i 2015/16) wrth ddefnyddio data cyfrifon blynyddol a gasglwyd drwy raglen monitro WeBS.

Am fwy o wybodaeth, ewch i: <https://www.bto.org/volunteer-surveys/webs/publications/webs-annual-report/online-reports>

Project gwydd talcen-wen yr Ynys Las

Mae poblogaeth **gwydd talcen-wen yr Ynys Las** (GTWYL) ledled y byd wedi gostwng yn sylweddol yn y degawdau diwethaf, o 35,600 o unigolion yn 1999 i ddim ond 20,556 o unigolion yn 2017. Mae'r rhywogaeth wedi ei rhestru fel un Mewn Perygl Argyfyngus ar lefel y DU ac mae hi ar y rhestr Goch yn y DU ac yng Nghymru.

Mae'n debyg bod rhesymau lu dros y dirywiad hwn, ac rydym yn dal i geisio eu deall i gyd. Fodd bynnag, mae'n debyg mai'r rheswm pennaf

yw cynhyrchedd blynyddol isel, fel y mae'n cael ei fesur gan gyfran cywion yn yr heidiau sy'n gaeafu bob blwyddyn. Mae hefyd gydberthyniad negyddol rhwng glaw yn y gwanwyn ar eu hardaloedd nythu ar yr Ynys Las a'r nifer o gywion a gynhyrhir. Rhai o'r heidiau bach sy'n dirywio gyflymaf, fel yn achos y ddwy haid o **wyddau talcen-gwyn yr Ynys Las** sy'n treulio'r gaeaf yng Nghymru. Unwaith y bydd yr heidiau yma wedi diflannu, mae'n bosibl na fyddan nhw byth yn ail-sefydlu.

Yng Nghymru, mae'r **wydd talcen-wen yr Ynys Las** yn cael ei gwarchod ar Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) y Dyfi a dyma lle mae ymdrechion cadwraeth ac ymchwil wedi eu canolbwyntio. Fodd bynnag, mae poblogaeth aeafu fechan hefyd ar Ynys Môn. Mae haid y Dyfi ei hun wedi gostwng o 167 o adar mor ddiweddar ag 1999 i ddim ond 22 o unigolion yn 2016/17.

Ym mis Rhagfyr 2016, gosododd partneriaeth GTWYL goleri GPS ar ddwy

iâr aeddfed, a choler ar yddfau 10 o adar eraill, i alluogi gwyddonwyr i astudio eu symudiadau chwilota am fwyd a chlwydo yn y gaeaf, yn ogystal â'u llwybrau ymfudo.

Dangosodd hyn bod un o'r gwyddau a dagiwyd, ynghyd â'i phartner, wedi hedfan o aber Dyfi i Wexford, Iwerddon, yn hwyr ym mis Rhagfyr, ac wedi ymuno â haid fawr o **wyddau talcen-gwyn yr Ynys Las** a oedd wedi hen sefydlu. Arhosodd yno hyd rhan gyntaf mis Mawrth 2017, pan ddychwelodd i'r Dyfi. Mae hyn yn rhoi golwg i ni o'r cysylltedd rhwng y gwahanol heidiau, ac efallai bod y newidiadau a welir gennym ar y Dyfi'n digwydd oherwydd bod rhai adar yn newid eu safleoedd gaeafu.

Arhosodd yr aderyn arall a dagiwyd ar y Dyfi am y gaeaf cyfan a mapiwyd dosbarthiad bwydo a chlwydo'r haid. Darparodd hyn dystiolaeth bwysig i ni a fydd yn helpu i lywio penderfyniadau ar newidiadau i reolaeth tir yn y dyfodol.

Fe'n darparwyd gyda golwg ddefnyddiol ar arferion yr adar wedi iddyn nhw adael eu hardaloedd gaeafu yng Nghymru gan ymfudiad yr adar yn y gwanwyn, o'r Dyfi i safleoedd oedi ar eu taith yng Ngwlad yr Iâ ac yna ymlaen i'w hardaloedd nythu yng ngorllewin yr Ynys Las. Gadawodd yr haid y Dyfi yn gynnar ym mis Ebrill 2017 a hedfan i fyny arfordir gorrlewin Prydain, gan gyrraedd Gwlad yr Iâ ychydig wedi 3 Ebrill.

Cyrhaeddodd y ddau aderyn o'r Dyfi iseldiroedd deheuol Gwlad yr Iâ, mewn ardal sy'n enwog am gynnal **gwyddau talcen-gwyn yr Ynys Las**. Yma, gwahanodd y ddau gan fwydo mewn ardaloedd gwahanol oddeutu 10–20km ar wahân, gan gymysgu gyda dwyster uchel o **wyddau talcen-gwyn yr Ynys Las** eraill, **gwyddau troedbinc** ac **elyrch y Gogledd**. Roedd yr adar yn chwilota am fwyd ar welltir wedi ei ddraenio a'i wella, a dangosodd asesiad o bell o'u proffiliau abdomenol eu bod mewn cyflwr corfforol

tebyg i adar eraill a oedd yn oedi mewn mannau eraill yng Ngwlad yr Iâ ar yr un dyddiad. Erbyn 4 Mai, roedd yr holl **wyddau talcen-gwyn yr Ynys Las** wedi ymadael am eu mannau nythu yng ngorllewin yr Ynys Las.

Digwyddodd rhan nesaf eu taith, i ardaloedd nythu yng ngorllewin yr Ynys Las, yn gynnar ym mis Mai. Awgrymodd y data lleoliad manwl a gasglwyd drwy gydol y tymor nythu bod y ddau aderyn wedi treulio'r haf oddeutu 50km ar wahân. Awgrymodd y data GPS bod un o'r adar a dagiwyd wedi cael un ymgais nythu aflwyddiannus ond roedd yr ail yn llwyddiannus ac fe'i gwelwyd yng Ngwlad yr Iâ yn hwyr ym mis Medi gyda'i chymar a phedwar cyw. Unwaith eto bwydodd a chlwydodd y ddau aderyn a dagiwyd oddeutu 10-20km ar wahân yng Ngwlad yr Iâ yn ystod eu harhosiad yng Ngwlad yr Iâ yn yr hydref.

Ffigur 1: Ymfudiad gwanwyn 2017 dwy **wydd talcen-wen yr Ynys Las** a farciwyd gyda thagiâu GPS.



Ffigur 2: Ymfudiad hydref 2017 dwy **wydd talcen-wen yr Ynys Las** a farciwyd gyda thagiâu GPS yng nghanolbarth Cymru.




O'r ddau aderyn a dagiwyd, dim ond un oedd wedi dychwelyd i AGA Aber Dyfi yng ngaeaf 2017/18. Mae'n ymddangos bod yr ail wedi cartrefu ar Ynys Coll yn yr Alban ac yn symud yn rheolaidd rhwng safleoedd bwydo a chlwydo yno. Cyn hyn roedd hi wedi rhoi'r gorau i'w hymfudiad o Wlad yr Iâ, gan

droi'n ôl ar ôl teithio 100km ar draws yr Atlantig. Efallai mai'r rheswm dros hyn oedd amodau tywydd anffafriol, er ei bod wedi cwblhau'r daith yn llwyddiannus ychydig o ddyddiau'n ddiweddarach.

Mae'r tagiau GPS wedi rhoi golwg werthfawr i ni o symudiadau dyddiol, llwybrau

ymfudo a lleoliadau nythu yr adar arbennig yma. Bydd yr wybodaeth yma'n chwarae rhan bwysig mewn penderfynu ar gyfeiriad gwaith cadwraeth i warchod dyfodol **gwyddau talcen-wyn yr Ynys Las**, yng Nghymru a ledled eu holl ddosbarthiad.

Ffigur 3: Lleoliad dwy **wydd talcen-wen yr Ynys Las** gyda thagiâu GPS o fis Rhagfyr 2017 ymlaen: un ar Ynys Coll yn yr Alban, y llall yn ôl ar y Dyfi.



Sefydlwyd partneriaeth **gwyddau talcen-wen yr Ynys Las** Cymru fel menter ar y cyd rhwng cyrff sy'n cynrychioli cadwraeth a hela er hamdden yng Nghymru. Mae'r bartneriaeth yn gweithio i ddarparu'r dystiolaeth angenrheidiol i gefnogi rheolaeth gadwraeth o **wyddau talcen-gwyn yr Ynys Las** ar aber Dyfi ac i benderfynu ar statws a dosbarthiad y gwyddau ar Ynys Môn. Ymysg y partneriaid mae RSPB Cymru, Ymddiriedolaeth Hwyaidd Gwylltion a Gwlyptir (WWT), Mick Green, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Y Corff Prydeinig dros Saethu a Chadwraeth (BASC) a Chorff Hela Hwyaidd Gwylltion y Dyfi, Mawddach a Dysynni. Darparwyd cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru.

Adrodd yn ôl yn genedlaethol

Rhaglen Fonitro a Gwerthuso Glastir

Bu Rhaglen Fonitro a Gwerthuso Glastir (RhFGG) yn weithredol o 2012 hyd 2016, a'i gorchwylion oedd gwerthuso llwyddiant y cynllun amaeth-amgylcheddol Glastir, yn ogystal â gosod man cychwyn ar gyfer monitro cynlluniau amaeth-amgylcheddol yng Nghymru yn y dyfodol.

Er mai "cynnal a gwella bioamrywiaeth" yw'r prif ganlyniad o ddi-ddordeb at bwrpas yr adroddiad hwn, cafodd ystod o ganlyniadau eu monitro i'n galluogi ni i asesu gallu'r tirlun ehangach i gynnal bywyd gwylt. Mae hyn yn hanfodol os ydym am sicrhau rhydwethiau o gynefinoedd sy'n ecolegol gysylltiedig a phoblogaethau gwydn o rywogaethau.

Adnabuwyd y canlyniadau positif canlynol gan Adroddiad Terfynol RhFGG (Emmet *et al* 2017):

- Mae maint clytiau o gynefin a choedlannau wedi cynyddu dros y 30 mlynedd diwethaf, sy'n awgrymu llai o ddarnio.
- Mae data Arolwg Adar yn Nythu y BTO/

JNCC/RSPB 9 (BBS) yn awgrymu cynnydd mewn poblogaethau adar sy'n nythu mewn coedlannau a'r ucheldir, ac amrywiaeth adar sefydlog drwyddo draw dros y 15 mlynedd diwethaf. Mae data'r ddwy flynedd ddiwethaf hefyd yn awgrymu ei bod yn bosibl bod poblogaethau o adar yr ucheldir wedi cynyddu ar ôl dirywiad dros 15 mlynedd.

- Mae metrig newydd ar gyfer rhywogaethau o adar â blaenoriaeth yn nodi bod gan 65% boblogaethau sefydlog neu sy'n cynyddu, heb yr un tueddiad cyson dros yr 20 mlynedd ddiwethaf.

Cofnododd yr adroddiad hefyd nifer o feysydd o bryder, a meysydd lle mae angen gweithredu pellach:

- Mae data Arolwg Adar sy'n Nythu'r BTO/JNCC/RSPB (BBS) yn nodi dirywiad ar gyfartaledd mewn poblogaethau o adar yr iseldir dros 15 mlynedd.
- Mae dadansoddiad newydd o ddata'r Arolwg Adar sy'n Nythu'r BTO/JNCC/RSPB (BBS) ar gyfer y

RhFGG i greu Mynegai Adar â Blaenoriaeth yn awgrymu bod gan 35% o rywogaethau adar â blaenoriaeth boblogaethau sy'n gostwng ac yn parhau mewn perygl. Mae'r rhywogaethau sy'n dirywio yn tueddu i fod yn arbenigwyr, tra bod cyffredinolwyr yn gwneud yn well.

- Hefyd, adnabuwyd bwlch o amser sylweddol rhwng prosesau rheolaeth a gwella ecosystem gan y RhFGG o rhwng 10–20 mlynedd, sy'n awgrymu y dylid cynnal unrhyw reolaeth am amser sylweddol er mwyn gwireddu buddion i rywogaethau.

Mae un her cydnabyddedig yn codi o'r dull o weithio'n ôl y RhFGG – mae'n methu monitro nifer o rywogaethau a chynefinoedd â blaenoriaeth yn ddigonol oherwydd eu bod mor brin. Rhaid i raglenni monitro'n y dyfodol sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â monitro rhywogaethau a chynefinoedd mewn perygl, ac mae'r RhFGG wedi bod yn datblygu metrigau at y pwrpas yma.

Ceir fwy o wybodaeth ar gmp.wales/resources

Cyflwr Adnoddau Naturiol Cymru

Mae'r adroddiad *Cyflwr Adnoddau Naturiol* (CAN), a gyhoeddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn 2016, yn sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr i Gymru, a'r adroddiad cyntaf o'i fath. Mae'n archwilio'r pwysau, cyflwr, gwytnwch, buddion, defnydd a rheolaeth ein hadnoddau naturiol, sy'n cynnwys bioamrywiaeth yn ogystal ag aer, dŵr, pridd, mineralau a phrosesau ffysiograffig. Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i asesu canlyniadau cyflwr adnoddau naturiol ar ffyniant pobl Cymru ac yn dod i farn ynglŷn â faint o reolaeth gynaliadwy sy'n cael ei gwredu.

Mae CAN yn adroddiad statudol a gynhyrchwyd fel gofyniad cyfreithiol Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Roedd yn ofynnol i GNC gyhoeddi ei adroddiad cyntaf erbyn mis Hydref 2016, ac wrth fynd ymlaen mae'n rhaid iddo gyhoeddi adroddiad yn ystod y flwyddyn galendr cyn pob Etholiad Cyffredinol yng

Nghymru. Dylai CAN II gael ei gyhoeddi erbyn diwedd 2020.

Mae stori bioamrywiaeth Cymru, yr "adnodd naturiol" cyntaf y sonnir amdano yn CAN, yn un cyfarwydd o bosib. Mae tueddiadau sydd ar gael ar hyd a lled a maint poblogaeth rhywogaethau daearol, dŵr croyw a morol yn amrywio'n fawr, ac mae rhai rhywogaethau'n gostwng ac eraill yn sefydlog neu'n cynyddu. Mae adar, yn ogystal ag ystlumod a llawer o rywogaethau sy'n peillio, yn cael eu hamlygu fel rhai sy'n profi cynnydd a phrinhad; fodd bynnag, nid oes digon o dystiolaeth i'n galluogi i ddod i ganlyniad ar gyfer rhywogaethau eraill.

Darganfyddiad allweddol arall o adroddiad CAN ydy bod newidiadau mewn meintiau ac ansawdd cynefinoedd yn effeithio'n uniongyrchol ar bob rhywogaeth, a bod y newidiadau hyn yn uniongyrchol berthnasol i newidiadau yn nwyster

trefnweithiau rheolaeth. Mae darnio ac ewtroffeddio yn cael eu hamlygu fel materion sy'n creu problemau arbennig i lawer rhywogaeth.

Mae bywyd gwyllt brodorol hefyd mewn perygl o risg gynyddol gan blâu, pathogenau a rhywogaethau ymledol. Mae newid hinsawdd yn dylanwadu ar ehangiad a chrebachu cynefinoedd a phoblogaethau rhai rhywogaethau, gan greu cyfleoedd i rywogaethau newydd gytrefu, ond hefyd yn cynyddu'r risg oherwydd digwyddiadau tywydd mwy rheolaidd a mwy eithafol.

Roedd adroddiad *Cyflwr Byd Natur 2016*, tueddiadau dangosyddion cryno o Arolwg Adar sy'n Nythu'r BTO/JNCC/RSPB (BBS) a data ar gyflwr nodweddiad safleoedd gwarchoddedig Cymru ymysg y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r asesiad Cymreig o fioamrywiaeth yn CAN. Cydnabyddir mai data adar yw'r gorau o ran monitro tymor hir a gwytnwch.

Am fwy o wybodaeth, ewch i: naturalresources.wales/sonarr?lang=en

Cynllun Gweithredu Adfer Byd Natur Cymru

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod ei ymrwymiad rhyngwladol i ddod â'r dirywiad ym mioamrywiaeth Cymru i ben erbyn 2020, ac wedi cyflwyno ei strategaeth i wrthdroi'r dirywiad hwnnw ar ffurf Cynllun Gweithredu Adfer Byd Natur Cymru. Dyma strategaeth genedlaethol Cymru sydd â'r amcan o fynd i'r afael â'r achosion sydd wrth wraidd colledion mewn bioamrywiaeth. Mae'n ymdrechu i wneud hyn drwy

osod byd natur wrth wraidd gwneud penderfyniadau, cynyddu gwytnwch yr amgylchedd naturiol a rhoi gweithrediadau penodol ar waith dros gynefinoedd a rhywogaethau. Mae tair rhan i'r cynllun:

- **Rhan 1: Strategaeth**
Mae'r rhan hon yn uwcholeuo pwysigrwydd bioamrywiaeth, er ei les ei hun ac er lles pobl Cymru. Mae hefyd yn egluro'r

materion y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw ac yn gosod chwe amcan ar gyfer gwneud hyn.

- **Rhan 2: Gweithredu**
Y rhan hon yw'r Cynllun Gweithredu Adfer Byd Natur (CGABN) gweithredol, sydd â'r bwriad o wireddu gweithrediadau er mwyn

rhanddalwyr yw bwrw ymlaen â hyn drwy osod targedau a cherrig milltir, adnabod a sicrhau mecanweithiau ariannu priodol a throi pwyntiau gweithredu ar bapur yn realiti ymarferol.

- **Rhan 3: Llywodraethu**
Mae'r rhan hon yn darparu manylion ar rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n cymryd rhan mewn gweithredu dros fioamrywiaeth yng Nghymru. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth ar fesurau atebolrwydd.

Mae'r cynllun yn ganmoladwy o ran ei nodau a'i amcanion, ond hyd yma mae wedi siomi'r disgwyliadau o ran gweithredu a brys. Ers ei gyflwyno yn 2015, mae'r Cynllun Gweithredu Adfer Byd Natur wedi bod yn araf ac nid yw'n glir sut y bydd adnoddau'n cael eu sicrhau. I raddau helaeth, nid ydy'r fframwaith lywodraethu a gynlluniwyd i sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn gwneud eu gorau glas dros fioamrywiaeth wedi cychwyn.

Gyda llai na dwy flynedd i fynd cyn i ni gyrraedd

2020 (y targed ar gyfer dod â cholledion mewn bioamrywiaeth i ben), rhaid i Lywodraeth Cymru ein helpu i gyd drwy flaenoriaethau a buddsoddi mewn canlyniadau gweladwy ar gyfer y cynllun hwn. Mae hyn yn golygu arweiniad clir ac adnoddau i CNC, awdurdodau lleol a chyrrff byd natur fel ei gilydd fel bod pawb yn gallu gwneud yr hyn sy'n angenrheidiol i warchod, rheoli a monitro ein rhywogaethau a'n cynefinoedd yn well.

Am fwy o wybodaeth, gweler biodiversitywales.org.uk/Nature-Recovery-Plan



Arolygon presennol ac ar y gweill

Daw'r wybodaeth a grynhoir yn *Sefyllfa Adar yng Nghymru 2018* o'r rhaglenni monitro blynyddol ac achlysurol a ddisgrifir isod, ac o waith adarwyr unigol. Dylai unrhyw un sydd â diddordeb mewn cymryd rhan yn yr arolygon hyn gysylltu â'r cyrff perthnasol yn y cyfeiriadau a roir ar dudalen 45.

Yr Arolwg Adar sy'n Nythu (BBS) yw'r cynllun monitro ar gyfer adar tir cyffredin ac eang eu dosbarthiad sy'n nythu ledled y DU. Ei nod yw darparu data ar dueddiadau poblogaeth i gyflenwi gwybodaeth ar gyfer cyfeirio gweithredu cadwraethol. Mae'n bartneriaeth rhwng Ymddiriedolaeth Adara Prydain (BTO), Cyd-Bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) (ar ran Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Gogledd Iwerddon (DAERA), Natural England (NE), Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Scottish Natural Heritage (SNH)), a'r RSPB.

Cysylltwch â'r BTO
bto.org/wbbs
[@BBS_birds](https://twitter.com/BBS_birds)

Cysylltwch â'r BTO
bto.org/bbs
[@BBS_birds](https://twitter.com/BBS_birds)

Partneriaeth yw **Arolwg Adar y Gwlyptir (WeBS)** rhwng y BTO, yr RSPB a'r JNCC (yr olaf ar ran y cyrff cadwraeth natur statudol: DAERA, NE, CNC a SNH) ac mewn cydweithrediad â'r Ymddiriedolaeth Adar Dŵr a Gwlyptir (WWT).

Cysylltwch â'r BTO
bto.org/webs
[@WeBS_UK](https://twitter.com/WeBS_UK)

Mae'r **Arolwg Adar Dyfrffyrdd sy'n Nythu (WBBS)** wedi bod ar waith ers 1998. Amcan y

cynllun hwn, ac Arolwg Adar Dyfrffyrdd (WBS), yr un o'i flaen, a fu ar waith o 1974 i 2007, yw monitro adar sy'n nythu ar lannau afonydd, yn enwedig arbenigwyr dyfrffyrdd, ledled y DU.

Cysylltwch â'r BTO
bto.org/wbbs
[@BBS_birds](https://twitter.com/BBS_birds)

Casgliad o arolygon (a ariennir gan bartneriaeth yr WWT, JNCC ac SHN), yw'r **Rhaglen Fonitro Gwyddau ac Elyrch (GSMP)**, a gynlluniwyd i asesu'n fanwl gywir amlder a llwyddiant nythu gwyddau brodorol y DU ac elyrch ymfudol oddi allan i'r tymor nythu.

Cysylltwch â'r WWT
monitoring.wwt.org.uk
[@WWTworldwide](https://twitter.com/WWTworldwide)

Mae **Cyfrifiad Crëyrfeydd y BTO** yn casglu cyfrifon o nythod sy'n ymddangos fel pe bae adar ynddyn nhw bob blwyddyn, o chyn gymaint o grëyrfeydd â phosibl ledled y DU. Mae'n amcanu hefyd at fonitro poblogaethau o adar dŵr cytrefol, yn enwedig y **crëyr glas, y crëyr bach a mulfrain**.

Cysylltwch â'r BTO bto.org/heronries-census
[@_BTO](https://twitter.com/_BTO)

Mae'r **Rhaglen Fonitro Adar Môr (SMP)** yn casglu gwybodaeth ar niferoedd nythu, llwyddiant nythu a pharametrau eraill i'n helpu ni i ddeall gyrrwyr newid ac i dargedu gweithredu cadwraethol. Wedi ei gydlyn gan y JNCC, mae'n bartneriaeth rhwng yr asiantaethau cadwraeth natur statudol, a chyrrff ymchwil a chadwraeth.

Cysylltwch â'r JNCC
jncc.defra.gov.uk/page-1550
[@JNCC_UKseabirds](https://twitter.com/JNCC_UKseabirds)

Gwyllo Adar yr Ardd yw arolwg bywyd gwyllt mwyaf y byd. Mae ei gynllun syml (un awr o wyllo adar yn eich gardd neu barc lleol yn ystod un penwythnos ym mis Ionawr) yn golygu bod oddeutu hanner miliwn o bobl yn cymryd rhan bob blwyddyn. Mae'r data'n darparu cipolwg ardderchog o niferoedd adar yr ardd ledled y DU.

Cysylltwch â'r RSPB
rspb.org.uk/birdwatch
[@RSPBScience](https://twitter.com/RSPBScience)

Cynllun drwy'r flwyddyn gron yw **Gwyllo Adar Gardd (GBW)** i gofnodi presenoldeb wythnosol a nifer adar yng ngerddi'r sawl sy'n cymryd rhan. Mae'r data a gesglir

yn darparu gwybodaeth werthfawr ar newidiadau blynyddol a thymhorol yn nefnydd adar o gynefinoedd gwledig a threfol. Fe all y rhain fod yn gysylltiedig â thueddiadau poblogaeth yn y cefn gwlad ehangach.

Cysylltwch â'r BTO
bto.org/gbw
[@BTO_GBW](https://twitter.com/BTO_GBW)

System o gofnodi adar drwy'r flwyddyn gron yw **BirdTrack** a weithredir gan y BTO mewn partneriaeth â'r RSPB, BirdWatch Iwerddon, Clwb Adaryddwyr yr Alban a Chymdeithas Adaryddol Cymru (WOS). Mae'r casgliad o ddata rhestr rhywogaethau gan nifer fawr o wylwyr yn helpu ystod o amcanion ymchwil cenedlaethol a monitro.

Cysylltwch â'r BTO
birdtrack.net
[@BirdTrack](https://twitter.com/BirdTrack)

Rhoir y **Cynllun Modrwyo** ar waith gan y BTO ac mae'n gweithredu ledled gwledydd Prydain ac Iwerddon. Fe'i ariennir gan bartneriaeth o'r BTO, y JNCC (ar ran DAERA,

NE, CNC a SHN), y Parciau Cenedlaethol a'r Gwasanaeth Bywyd Gwyllt (Iwerddon) a'r modrwywyr eu hunain. Mae modrwywyr adar gwirfoddol yn casglu data ar oroesiad, cynhyrchedd, symudiadau a chyflwr yr adar. Mae projectau modrwyo (megis y Cynllun Safleoedd Ymdrech Barhaol), project Oedolion yn Modrwyo er Goroesiad, a modrwyo arall bwysig o'r Cynllun.

Cysylltwch â'r BTO
bto.org/ringing
[@_BTO](https://twitter.com/_BTO)

Mae **Cynllun Cofnodi Nythod y BTO (NRS)** yn casglu gwybodaeth hanfodol ar lwyddiant nythu adar y DU drwy ofyn i wirfoddolwyr sy'n cofnodi nythod ddod o hyd i nythod adar unigol a dilyn eu cynnydd. Ariennir y cynllun gan bartneriaeth o'r BTO a'r JNCC (ar ran DAERA, NE, CNC a SHN).

Cysylltwch â'r BTO
bto.org/nrs
[@_BTO](https://twitter.com/_BTO)

Gweithredir **rhaglen o arolygon ledled y DU** o rywogaethau nythu â blaenoriaeth o dan yr Asiantaethau Cadwraeth Statudol a Rhaglen Cynllun Adar sy'n Nythu'r RSPB (SCARABBS).

[@RSPBScience](https://twitter.com/RSPBScience)

Cyfrif Adar Môr yw'r pedwerydd cyfrifiad o adar môr sy'n nythu i'w gynnal yn y DU ac Iwerddon. Mae'n cael ei gydlyn gan y JNCC ac mae cydlynwyr rhanbarthol yn cael eu recriwtio. Ar hyn o bryd mae angen gwirfoddolwyr i gynorthwyo gydag arolygon yn ystod tymhorau nythu 2018 a 2019.

Cysylltwch â'r JNCC ar seabirdscountcoordinator@jncc.gov.uk os allwch chi helpu.

[@JNCC_UKseabirds](https://twitter.com/JNCC_UKseabirds)



Cydnabyddiaeth

Rhoir monitro adar yng Nghymru a gweddill y DU ar waith gan bartneriaeth eang o asiantaethau'r llywodraeth, cyrff anlywodraethol, noddwyr ac adarwyr annibynnol, yn cynnwys:

BirdLife International; BirdWatch Ireland; British Birds; Ymddiriedolaeth Adara Prydain/British Trust for Ornithology; British Waterways, Centre for Ecology and Hydrology; Cross & Stratford Chough Colour-ring Project; Darwin Plus Initiative; Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs, Northern Ireland; Department for Environment, Food and Rural Affairs; Department of Environment and Natural Resources; Government of Bermuda; Asiantaeth yr Amgylchedd/Environment Agency; Amgylchedd Cymru/Environment Wales; European Bird Census Council; European Union Life Programme; Comisiwn Coedwigaeth/Forestry Commission; Forest Enterprise; Game and Wildlife Conservation Trust; Greenland White-fronted Goose Study;

Irish Brent Goose Research Group; Irish Whooper Swan Study Group; Isle of Man Department of Environment, Food and Agriculture; Cydbwyllgor Cadwraeth Natur/Joint Nature Conservation Committee; Manx BirdLife; Ministry of Defence; Ymddiriedolaeth Genedlaethol/National Trust; National Trust for Scotland; Natural England; Cyfoeth Naturiol Cymru/Natural Resources Wales; Northern England Raptor Forum; Northern Ireland Raptor Study Group; Pembrokeshire Chough Study Group; Raptor Study Groups; Rare Breeding Birds Panel; y Gymdeithas Frenhinol dros Warchod Adar/the Royal Society for the Protection of Birds; Scottish Government Environment and Forestry Directorate; Scottish Natural Heritage; Scottish Ornithologists' Club; Scottish

Raptor Monitoring Scheme; Scottish Raptor Study Group; Seabird Group; Shetland Oil Terminal Environmental Advisory Group; Wales Raptor Study Group; Cymdeithas Adaryddol Cymru/Welsh Ornithological Society; the Wildfowl & Wetlands Trust; a'r Ymddiriedolaethau Byd Natur.

Yn arbennig, diolchwn i'r miloedd o wirfoddolwyr sydd wedi cyfrannu eu hamser, eu brwdfrydedd a'u harbenigedd i'r rhaglenni monitro a'r arolygon sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn. Diolchwn hefyd i'r tîrffeddiannwyr a'u hasiantaethau, tenantiaid a gweithwyr cyflogedig sydd wedi caniatáu i arolygwyr ymweld â'u tir i gyfrif a monitro'r adar.

Pwy ydym ni

Mae *Sefyllfa adar yng Nghymru 2018* hefyd ar gael arlein ar wefannau'r BTO, Cymdeithas Adaryddol Cymru (WOS), Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'r RSPB (gweler y cyfeiriadau isod).

Cynlluniwyd a chyhoeddwyd gan yr RSPB ar ran:

Ymddiriedolaeth Adara Prydain (The British Trust for Ornithology - BTO)

The Nunnery
Thetford
Norfolk
IP24 2PU
Ffôn: 01842 750050

BTO Cymru

Adeilad Thoday
Ffordd Deiniol
Bangor
Gwynedd
LL57 2UW
Ffôn: 01248 383285

bto.org

[@BTO](#)

Elusen gofrestredig rhif 216652 yn Lloegr a Chymru; SC039193 yn Yr Alban.

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP
Ffôn: 0300 065 3000

naturalresources.wales

[@NatResWales](#)

Cymdeithas Adaryddol Cymru (WOS)

[birds.wales](#)
[@birds.wales](#)

Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB)

Pencadlys y DU
The Lodge
Sandy
Bedfordshire
SG19 2DL
Ffôn: 01767 680551

Pencadlys RSPB Cymru

Pont y Castell 3
5-19 Heol y Bont-faen
Dwyrain Caerdydd
CF11 9AB
Ffôn: 029 2035 3000

rspb.org.uk

[@RSPBScience](#)
[@Natures_Voice](#)

Mae'r RSPB yn elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru rhif 207076, yn yr Alban SC037654.

Cyfeiriadau

- Anderson HB, Evans PGH, Potts JM, Harris MP ac Wanless S (2014) The diet of common guillemot *Uria aalge* chicks provides evidence of changing prey communities in the North Sea. *Ibis* 156: 23–34.
- Balmer DE, Gillings S, Caffrey BJ, Swann RL, Downie IS, a Fuller RJ (2013) *Atlas Adar 2007-11: adar sy'n nythu ac yn gaeafu ym Mhrydain ac Iwerddon*. BTO Books, Thetford.
- Burrell E, Griffin L, Mitchell C ac Weegman M (2017) Researching the Greenland White-fronted Goose. *Goose News* 16: 6–8.
- Francis I, Mitchell C, Griffin L and Fox AD (2011) *Greenland White-fronted Geese. Land use and conservation at small wintering sites in Scotland*. Adroddiad GWGSMWT I Scottish Natural Heritage. 139 pp.
- Astudiaeth o wŷdd talcen-wen yr Ynys Las.
- Green M, Mitchell C a Jones R (2017) *Greenland white-fronted geese in Wales in winter 2016/17*. Adroddiad CNC.
- Hayhow DB, Bond AL, Eaton MA, Grice PV, Hall C, Hall J, Harris SJ, Hearn RD, Holt CA, Noble DG, Stroud DA ac Wotton S (2015) *Sefyllfa adar y DU 2015*. RSPB, BTO, WWT, JNCC, NE, NIEA, NRW a SNH, Sandy, Bedfordshire.
- Hayhow DB, Burns F, Eaton MA, Bacon L, Al-Fulajj N, Bladwell S, Brookman E, Byrne J, Cheesman C, Davies D, De Massimi S, Elding C, Hobson R, Jones J, Lucas SR, Lynch S, Morgan L, Rowe A, Sharp R, Smith RG, Stevenson K, Stretton TA, Taylor R a Gregory RD (2016) *Cyflwr Byd Natur 2016: Cymru*. Partneriaeth Cyflwr Byd Natur.
- Hayhow DB, et al. (In prep.) Status of breeding chough *Pyrhcorax pyrrhcorax* in the UK and Isle of Man 2014. *Bird Study*.
- Hayhow DB, Bond AL, Eaton MA, Grice PV, Hall C, Hall J, Harris SJ, Hearn RD, Holt CA, Noble DG, Stroud DA ac Wotton S (2015) *The state of the UK's birds 2015*. RSPB, BTO, WWT, JNCC, NE, NIEA, NRW a SNH. Sandy, Bedfordshire.
- Holling M (2016) Rare breeding birds in the United Kingdom in 2014. *British Birds* 109: 491–545.
- Johnstone a Bladwell (2016) Birds of Conservation Concern in Wales 3: the population status of birds in Wales. *Birds in Wales Cyfrol 13 Rhif 1*.
- Johnstone I, Thorpe R, Moore A a Finney S (2007) Breeding status of Choughs *Pyrhcorax pyrrhcorax* in the UK and Isle of Man in 2002. *Bird Study* 54: 23–34.
- Adroddiad heb ei gyhoeddi'r RSPB. Pencadlys yr RSPB yn y DU, Sandy Bedfordshire.
- Taylor R, Noble DG and Gillings S (2016). *Wales-specific patterns of change in distribution and relative abundance derived from the Bird Atlas 2007–11*. Adroddiad i RSPB Cymru. BTO Cymru.
- Wotton SR, Bladwell S, Mattingley W, Morris NG, Raw D, Ruddock, MStevenson A ac Eaton MA (in prep.) The status of hen harrier *Circus cyaneus* in the UK and Isle of Man in 2016. *Bird Study* 60:4, 446–458.
- Emmett BE and the GMEP team (2017) Glastir Monitoring and Evaluation Programme. Final Report to Welsh Government.

Mae Cymru'n cynnal 69% o boblogaeth nythu'r gwybedog brith.



